

Agenda – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynadledda drwy Zoom P Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 5 Mehefin 2023 Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30 0300 200 6565
SeneddDCC@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (13.30)

2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 (13.30 – 13.35)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

2.1 SL(6)359 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2023

(Tudalennau 1 – 2)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 1 – Adrioddiad drafft

2.2 SL(6)361 – Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023

(Tudalennau 3 – 7)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:



LJC(6)-17-23 – Papur 2 – Adroddiad drafft

LJC(6)-17-23 – Papur 3 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Llywydd, 23 Mai 2023

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

2.3 SL(6)360 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2023

(Tudalennau 8 – 11)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 4 – Adroddiad drafft

LJC(6)-17-23 – Papur 5 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 22 Mai 2023

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes (13.35 – 13.40)

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol

3.1 SL(6)356 – Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2023

(Tudalennau 12 – 15)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 6 – Adroddiad

LJC(6)-17-23 – Papur 7 – Ymateb Llywodraeth Cymru

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes (13.40 – 13.45)

4.1 SL(6)357 – Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion

(Tudalennau 16 – 25)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 8 – Adroddiad

LJC(6)-17-23 – Papur 9 – Ymateb Llywodraeth Cymru

5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.45 – 13.50)

5.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd

(Tudalen 26)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 10 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 22 Mai 2023

5.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder

(Tudalen 27)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 11 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Mai 2023

5.3 Gohebiaeth gan y Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Bydd Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio) 2023

(Tudalennau 28 – 30)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 12 – Llythyr gan y Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 26 Mai 2023

6 Papurau i'w nodi

(13.50 – 14.00)

6.1 Gohebiaeth gan Peter Fox AS: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y Bil Bwyd (Cymru)

(Tudalennau 31 – 36)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 13 – Llythyr gan Peter Fox AS, 19 Mai 2023

6.2 Gohebiaeth gan Peter Fox AS at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Bwyd (Cymru)

(Tudalennau 37 – 42)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 14 – Llythyr gan Peter Fox AS at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 19 Mai 2023

6.3 Gohebiaeth gan Peter Fox AS at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Ymateb i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Bil Bwyd (Cymru)

(Tudalennau 43 – 50)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 15 – Llythyr gan Peter Fox AS at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mai 2023

6.4 Gohebiaeth gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Bil Bwyd (Cymru)

(Tudalen 51)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 16 – Llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 31 Mai 2023

6.5 Gohebiaeth gyda'r Pwyllgor Busnes: Bil Bwyd (Cymru)

(Tudalennau 52 – 54)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 17 – Llythyr gan y Pwyllgor Busnes, 31 Mai 2023

LJC(6)-17-23 – Papur 18 – Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 16 Mai 2023

**6.6 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y
Cyfansoddiad: Datganiad ar gynnydd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol
Cyfansoddiadol Cymru**

(Tudalen 55)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 19 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol
a Gweinidog y Cyfansoddiad, 23 Mai 2023

**6.7 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil
Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

(Tudalennau 56 – 58)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 20 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, 24 Mai 2023

**6.8 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol:
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig**

(Tudalennau 59 – 60)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 21 – Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid
a Llywodraeth Leol, 26 Mai 2023

**6.9 Gohebiaeth gan y Groes Goch Brydeinig: Memorandwm Cydsyniad
Deddfwriaethol ar y Bil Mewnfudo Anghyfreithlon**

(Tudalennau 61 – 67)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 22 – Llythyr gan y Groes Goch Brydeinig, 31 Mai 2023
[Saesneg yn unig]

**7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(14.00)

- 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon**
(14.00 – 14.10) (I ddilyn)
Dogfennau atodol:
LJC(6)-17-23 – Papur 23 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]
- 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus: Adroddiad drafft**
(14.10 – 14.25) (I ddilyn)
Dogfennau atodol:
LJC(6)-17-23 – Papur 24 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]
- 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**
(14.25 – 14.35) (Tudalennau 68 – 70)
Dogfennau atodol:
LJC(6)-17-23 – Papur 25 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]
- 11 Trafod yr ohebiaeth mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig**
(14.35 – 14.40) (Tudalennau 71 – 75)
Dogfennau atodol:
LJC(6)-17-23 – Papur 26 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Mehefin 2023
LJC(6)-17-23 – Papur 27 – Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 18 Mai 2023
- 12 Adroddiad monitro**
(14.40 – 14.50) (Tudalennau 76 – 91)
Dogfennau atodol:
LJC(6)-17-23 – Papur 28 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]
- 13 Blaenraglen waith**
(14.50 – 15.00) (Tudalennau 92 – 97)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-17-23 – Papur 29 – Briffio [Saesneg yn unig]

SL(6)359 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2023

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 ("y prif Reoliadau"), sy'n darparu ar gyfer codi ac adennill ffioedd am wasanaethau perthnasol a ddarperir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i bersonau penodol nad ydynt yn preswyl fel arfer yn y Deyrnas Unedig.

Mae rheoliad 2(a) yn ychwanegu Bermuda, Ynysoedd Cayman ac Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno at y rhestr o wledydd neu diriogaethau y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwmo i gytundeb cilyddol â hwy yn Atodlen 2 i'r prif Reoliadau. Mae rheoliad 2(b) yn diwygio St Helena i gynnwys Ascension a Tristan da Cunha.

Mae adran 4 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn egluro bod y cytundebau yn nodi y bydd pob Tiriogaeth Dramor yn cael cwota cyfyngedig o leoedd ar gyfer atgyfeiriadau cleifion ar gyfer triniaeth yn y DU, ac y bydd nifer yr atgyfeiriadau i'w hysbysu gan y DU o bryd i'w gilydd. Y ffigur y mae'r DU wedi cytuno arno â'r Tiriogaethau Tramor ar hyn o bryd yw pum claf fesul Tiriogaeth Dramor y flwyddyn. Os bydd unrhyw un o'r Tiriogaethau Tramor hyn yn cael Cymorth Datblygu Swyddogol, bydd y cwota hwn yn cynyddu i 10 claf ar gyfer y Dirioogaeth Dramor dan sylw. Mae'r cwota wedi'i ledaenu dros gyfnod o dair blynedd gyda dyraniad treigl tair blynedd o leoedd cwota. O ran unrhyw gleifion sy'n cael eu hanfon i'r DU am driniaeth yn ychwanegol at y cwota perthnasol, codir tâl arnynt ar 100% o dariff y GIG.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori cyn gwneud y Rheoliadau. Bernir nad yw'r diwygiadau arfaethedig yn gofyn am ymgynghoriad gan eu bod yn rhoi ar waith cytundebau rhyngwladol y DU sy'n gymwys i'r DU gyfan ac felly mae'n ofynnol i Gymru eu rhoi ar waith a'u parchu."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

19 Mai 2023



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament **Tudalen y pecyn 2**

Legislation, Justice and Constitution Committee

SL(6)361 – Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2023. Maent yn gwneud diwygiadau i reoliadau caffael cyhoeddus amrywiol yn y Deyrnas Unedig at ddiben rhoi dau Gytundeb Masnach Rydd y mae'r Deyrnas Unedig wedi ymrwymo iddynt ar waith, un ag Awstralia ("CMR y DU-Awstralia") a'r llall â Seland Newydd.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud y diwygiadau cyffredinol a ganlyn i reoliadau caffael cyhoeddus er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag ymrwymadau a wneir yn CMR y DU-Awstralia:

- cyflwyno'r rheol, pan na ellir amcangyfrif gwerth caffaeliad, fod y caffaeliad i'w drin fel pe bai ei werth wedi ei bennu ar y trothwy perthnasol ar gyfer y math hwnnw o gaffaeliad (gan gynnwys darpariaeth arbennig ar gyfer sefyllfaoedd pan na ellir amcangyfrif gwerth un neu ragor o lotiau);
- dileu'r posibilrwydd o ddefnyddio hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw neu hysbysiad dangosol cyfnodol fel yr alwad am gystadleuaeth; a
- gwahardd awdurdodau contractio a chyfleustodau rhag terfynu contractau mewn modd sy'n osgoi rhwymedigaethau yn CMR y DU-Awstralia.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau trosiannol.

Mae'r Rheoliadau yn gymwys mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig Cymreig ac maent yn dod i rym ar 26 Mai 2023.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnod pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu



Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2023 er mwyn mynd i'r afael â'r pwyntiau adrodd technegol a nodwyd gan y Pwyllgor hwn yn ei adroddiad ar y Rheoliadau hynny.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn y torrir y confensiwn 21 diwrnod (hynny yw, y confensiwn y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r confensiwn, a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 23 Mai 2023.

Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn dweud:

"Effaith ...[y Rheoliadau hyn]... fydd cyflawni rhwymedigaeth i weithredu'r Cytundebau Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia a'r DU a Seland Newydd mewn perthynas ag awdurdodau Cymreig datganoledig, i osgoi unrhyw anghydfodau posibl gyda'r aelod-wladwriaethau a/neu eu cynigwyr ac osgoi ansicrwydd a allai gael effaith ar gynigwyr y DU i'r marchnadoedd caffael hyn. Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud Rheoliadau tebyg a ddaw i rym ar 25 Mai 2023.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw at y confensiwn 21 diwrnod oherwydd y ffaith bod angen i'r...[Rheoliadau hyn]...ddod i rym i gyd-fynd â Rheoliadau Llywodraeth y DU yn dod i rym er mwyn i'r Cytundebau Masnach Rydd gael eu gweithredu'n llawn ar draws y Deyrnas Unedig. Mae gan Rheoliadau Llywodraeth y DU a'r...[Rheoliadau hyn]...ddarpariaethau cysylltiedig, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddod i rym yn olynol. Rhoddwyd ymrwymiad i Awstralia a Seland Newydd y bydd y Rheoliadau mewn grym erbyn 26 Mai 2023 fan bellaf."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol



Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
25 Mai 2023



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 5

Legislation, Justice and Constitution Committee



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CARDIFF
CF99 1SN

23 Mai 2023

Annwyl Lywydd,

Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023 ("Rheoliadau disodli") yn dod i rym ar 26 Mai 2023, ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Diben yr Offeryn Statudol yw dirymu a disodli Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2023 (O.S. 2023/506 (Cy.76) ("y Rheoliadau Gwreiddiol") mewn ymateb i adroddiad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Adroddiad Rhif: SL(6)356). Gwnaed y Rheoliadau Gwreiddiol ar 3 Mai 2023 a'u gosod ar 5 Mai 2023 gyda dyddiad dod i rym ar 26 Mai 2023, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2.

Effaith yr Offeryn Statudol fydd cyflawni rhwymedigaeth i weithredu'r Cytundebau Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia a'r DU a Seland Newydd mewn perthynas ag awdurdodau Cymreig datganoledig, i osgoi unrhyw anghydfodau posibl gyda'r aelod-wladwriaethau a/neu eu cynigwyr ac osgoi ansicrwydd a allai gael effaith ar gynigwyr y DU i'r marchnadoedd caffael hyn. Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud Rheoliadau tebyg a ddaw i rym ar 25 Mai 2023.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw at y confensiwn 21 diwrnod oherwydd y ffaith bod angen i'r Rheoliadau sy'n disodli'r Rheoliadau Gwreiddiol ddod i rym i gyd-fynd â Rheoliadau Llywodraeth y DU yn dod i rym er mwyn i'r Cytundebau Masnach Rydd gael eu gweithredu'n llawn ar draws y Deyrnas Unedig. Mae gan Rheoliadau Llywodraeth y DU a'r Rheoliadau sy'n disodli'r Rheoliadau Gwreiddiol ddarpariaethau cysylltiedig, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 6
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddod i rym yn olynol. Rhoddwyd ymrwymiad i Awstralia a Seland Newydd y bydd y Rheoliadau mewn grym erbyn 26 Mai 2023 fan bellaf.

At hynny, mae sylwedd, diben ac effaith y Rheoliadau sy'n disodli'r Rheoliadau Gwreiddiol yn union yr un fath â'r Rheoliadau Gwreiddiol. Yn sgil hynny, byddai Gweinidogion Cymru yn dadlau bod darpariaethau o sylwedd y Rheoliadau sy'n disodli'r Rheoliadau Gwreiddiol wedi'u gosod gerbron y Senedd, ac felly ar gael ar gyfer craffu arnynt ers 5 Mai.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Eitem 2.3

SL(6)360 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2023

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014"), sy'n darparu ar gyfer gwneud rhai categorïau o bersonau o dramor yn gymwys neu'n anghymwys i gael dyraniad o lety tai a/neu gymorth tai.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 3, 4, 5, a 6 o Rheoliadau 2014. Mae'r Rheoliadau'n estyn cymhwysra i gael dyraniad o lety tai a chymorth tai a ddarperir gan awdurdodau lleol i bobl sy'n wladolion Prydeinig, personau eraill nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo (neu nad ydynt yn cael eu trin felly), ac unrhyw un â chaniatâd mewnfudo a hawl i gyllid cyhoeddus sy'n cyrraedd y DU oherwydd yr aflonyddwch sifil yn Sudan, a waethygodd yn sydyn ar 15 Ebrill 2023 yn Khartoum a ledled Sudan.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod "*ymrwymiad cadarn Llywodraeth Cymru i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn cryfhau'r cyfiawnhad dros y cynnig hwn, am y byddai unrhyw rwystr sy'n atal cymorth rhag cael ei roi i bobl sy'n ceisio tai neu gymorth tai yn mynd yn groes i'r polisi cyfredol ynglŷn â digartrefedd*".

Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Rydym yn nodi na chynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch y Rheoliadau hyn, a hynny am y rhesymau a amlinellir yn y paragraff canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:



Gan fod y sefyllfa yn Sudan wedi digwydd mor sydyn, a'r angen ymarferol i wneud yn siŵr y gall y rhai sydd wedi cyrraedd neu sy'n cyrraedd Cymru gael tai neu gymorth tai, rydym o'r farn y byddai'n anfanteisiol cynnal ymgynghoriad. Gan y bydd y Rheoliadau diwygio hefyd yn sicrhau canlyniadau sy'n ymwneud â pholisi (mewnfudo a lles) y Llywodraeth y DU a ddargedwir, ni fyddai modd cynnal ymgynghoriad ystyrlon ar ddulliau gweithredu amgen, gan mai effaith y Rheoliadau diwygio yw sicrhau cysondeb rhwng cyfraith tai Cymru a chyfraith mewnfudo/lles.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

31 Mai 2023



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 9

Legislation, Justice and Constitution Committee



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru)
(Diwygio) (Rhif 2) 2023 drafft

DYDDIAD 22 Mai 2023

GAN Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Yn sgil y gwaethygiad sydyn yn y brwydro yn Sudan, a ddechreuodd ar 15 Ebrill 2023, mae Llywodraeth y DU wedi newid y ffordd y mae'n cymhwyso'r prawf preswylfa fel arfer at y rhai sydd wedi gadael eu cartrefi yno i ddod i'r DU. Bydd y prawf preswylfa fel arfer, sy'n atal rhywun sydd â'r hawl i ddod i mewn i'r DU rhag hawlio budd-daliadau yn syth ar ôl cyrraedd, a all gymryd hyd at dri mis i'w gwblhau, yn cael ei ddatgymhwyso yn achos y rhai sydd wedi dianc o'r gwrthdaro yn Sudan. Drwy ddatgymhwyso'r prawf preswylfa fel arfer bydd y rhai sy'n cyrraedd y DU yn gallu hawlio budd-daliadau ar unwaith, gan gynnwys cymorth tai a digartrefedd.

Er mwyn cysoni cyfraith tai yng Nghymru â'r newid gan Lywodraeth y DU, fel y gall pobl sy'n dod i Gymru o Sudan fod yn gymwys i wneud cais am dai cymdeithasol a chymorth digartrefedd, bwriadaf osod Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2023 drafft ("y Rheoliadau drafft"). Y rhai fydd yn gymwys yw gwladolion Prydeinig, personau eraill nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo (neu nad ydynt yn cael eu trin felly), ac unrhyw un sydd â chaniatâd mewnfudo a hawl i gyllid cyhoeddus sydd wedi gadael ei gartref oherwydd y gwrthdaro yno.

Rydym yn disgwyl y bydd y niferoedd o bobl sy'n dod i Gymru yn fach iawn, ond gan fod pobl eisoes yn cyrraedd y DU o Sudan, mae'n rhaid i'r newidiadau hyn gael eu gwneud cyn gynted ag y bo modd. O ganlyniad, caiff y Rheoliadau drafft eu gosod ar 22 Mai i'w hystyried gan y Senedd ar 6 Mehefin. Rwyf wedi gwneud y penderfyniad i gyflymu'r broses hon oherwydd natur frys y sefyllfa ac i roi sicrwydd i randdeiliaid a'r rhai sy'n cyrraedd o Sudan mewn perthynas â'r gwasanaethau y gallant eu defnyddio ar ôl cyrraedd.

Rwyf wedi ysgrifennu i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ofyn am ei gymorth i ystyried y Rheoliadau ar fyrder er mwyn i Aelodau'r Senedd gael gweld adroddiad y Pwyllgor cyn y ddadl ar 6 Mehefin 2023.

Rwy'n ddiolchgar i'r pwyllgor ac i'm cyd-aelodau yn y Senedd am eu cefnogaeth o ran y mater anarferol ond brys ei natur hwn.

Eitem 3.1

SL(6)356 – Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2023

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i reoliadau caffael cyhoeddus amrywiol yn y Deyrnas Unedig at ddiben rhoi dau Gytundeb Masnach Rydd y mae'r Deyrnas Unedig wedi ymrwymo iddynt ar waith, un ag Awstralia ("CMR y DU-Awstralia") a'r llall â Seland Newydd.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud y diwygiadau cyffredinol a ganlyn i reoliadau caffael cyhoeddus er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag ymrwymadau a wneir yn CMR y DU-Awstralia:

- cyflwyno'r rheol, pan na ellir amcangyfrif gwerth caffaeliad, fod y caffaeliad i'w drin fel pe bai ei werth wedi ei bennu ar y trothwy perthnasol ar gyfer y math hwnnw o gaffaeliad (gan gynnwys darpariaeth arbennig ar gyfer sefyllfaoedd pan na ellir amcangyfrif gwerth un neu ragor o lotiau);
- dileu'r posibilrwydd o ddefnyddio hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw neu hysbysiad dangosol cyfnodol fel yr alwad am gystadleuaeth; a
- gwahardd awdurdodau contractio a chyfleustodau rhag terfynu contractau mewn modd sy'n osgoi rhwymedigaethau yn CMR y DU-Awstralia.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau trosiannol.

Mae'r Rheoliadau yn gymwys mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig Cymreig ac maent yn dod i rym ar 26 Mai 2023.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Mae rheoliadau 2(7) ac (8)(b) o'r Rheoliadau dan sylw yn ceisio hepgor y testun a ganlyn o reoliadau 27(4) a 28(6) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn y drefn honno:

*"which was not itself used as a means **for** calling for competition" [ychwanegwyd y pwyslais].*

Fodd bynnag, ymddengys mai'r testun perthnasol yn rheoliadau 27(4) a 28(6) sydd i'w hepgor yw:

*"which was not itself used as a means **of** calling for competition".*

2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.

Mae rheoliadau 4(11)(b)(ii), (15)(a)(ii), (18)(c)(ii), (20)(b) a (22)(b) yn hepgor rheoliadau 52(23)(b), 65(2)(b), 73(5)(b), 91(1)(b) a 105A (3)(b) yn y drefn honno o Reoliadau Contractau Cyfleustodau 2016.

Ym mhob achos, mae'r ddarpariaeth i'w hepgor yn cynnwys is-baragraff a chysylltair ("or" neu "and"). Fodd bynnag, nid yw'r rheoliadau'n darparu ar gyfer hepgor y cysyllteiriau hynny ynghyd â'r is-baragraff perthnasol.

3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae rheoliad 5(2) yn nodi'r amgylchiadau lle bernir bod caffaeliad wedi ei gychwyn at ddibenion y ddarpariaeth drosiannol yn rheoliad 5(1).

Fodd bynnag, nid yw'r rheoliad yn egluro a fwriedir i bob un o'r amgylchiadau penodol a restrir yn is-baragraffau (a)-(c) o baragraff (2) weithredu'n gyfunol, neu fel opsiynau ar wahân, er mwyn i'r ddarpariaeth drosiannol ym mharagraff (1) gael effaith.

Rhinweddau: Craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio, ac yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl i reoliadau cyfatebol gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau hyn yn nodi:

"Diben hyn yw sicrhau bod y newidiadau a wneir gan reoliadau Llywodraeth y DU ar gyfer awdurdodau contractio nad ydynt yn awdurdodau Cymreig datganoledig a'r rhai a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag awdurdodau Cymreig



datganoledig, gyda'i gilydd yn arwain at set gydgysylltiedig o ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth gaffael greiddiol bresennol."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r materion technegol a nodwyd.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 22 Mai 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament Tudalen y pecyn 14

Legislation, Justice and Constitution Committee

Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2023

Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor am godi'r pwyntiau adrodd ac wedyn wedi ailosod y Rheoliadau (Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2023) sy'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd ac yn dirymu Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) (Cymru) 2023.

Eitem 4.1

SL(6)357 – Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion

Cefndir a Diben

Mae'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion a gyhoeddwyd yn 2013 wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau 2023") a ddaeth i rym ar 3 Mai 2023

Fe wnaeth Rheoliadau 2023 ddiwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") er mwyn cynnwys opsiwn i apelau derbyn gael eu cynnal o bell, yn ogystal ag yn bersonol, neu drwy gymysgedd o'r ddau. Maent yn codio rhai trefniadau dros dro a gyflwynwyd mewn ymateb i bandemig y coronafeirws.

Mae Rheoliadau 2023 yn gymwys i'r ddau fath o wrandawriad apêl derbyn yr ymdrinnir â hwy o dan Reoliadau 2005, hynny yw apelau yn erbyn penderfyniad awdurdod derbyn i wrthod derbyn plentyn ac apelau gan gyrff llywodraethu yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol i dderbyn i'w hysgol blentyn sydd wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu ragor.

Mae'r cod hwn hefyd yn cynnwys rhai diwygiadau technegol sy'n adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ers i'r cod blaenorol gael ei gyhoeddi yn 2013.

Gweithdrefn

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft).

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn.

1. Mae'r Pwyllgor wedi nodi nifer sylweddol o wallau yn y Cod sydd wedi'u rhestru yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn. Yn benodol, ceir sawl anghysondeb sylweddol rhwng ystyr y testunau Cymraeg a Saesneg a allai arwain at ddehongli'r cod yn anghywir gan y darllenydd.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.



Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 22 Mai 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Welsh Parliament

Tudalen y pecyn 17

Legislation, Justice and Constitution Committee

Cod Apelau Derbyn i Ysgolion

Adroddiad Drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Atodiad

Gwallau o sylwedd

1. Mae'r Cod yn cynnwys cyfeiriadau at "(date)" (ar dudalennau 1 a 2) a "[HTML]" (ar dudalennau 27, 37 a 49) lle mae'r dalfannau hynny wedi'u gadael i mewn ac nad yw'r dyddiad/linc perthnasol wedi'i fewnosod.
2. Yn y Cyflwyniad, ym mharagraff 1.1, defnyddir "Allau" o'r dechrau heb gael ei ddiffinio cyn hynny yn y Cod.
3. Ym mharagraff 3.4, yn y pwynt bwled olaf, yn y testun Cymraeg, cyfieithwyd y geiriau "in writing" fel "drwy lythyr" sy'n llythrennol yn golygu "by letter". Mae'r un peth yn digwydd mewn manau eraill wrth gyfieithu "in writing" ym mharagraffau 6.1, 7.2 a 7.11 o'r Cod. Yn ddiweddarach yn Atodiad D, ym mharagraff D.3, ceir enghraifft hefyd lle mae "in writing" wedi ei gyfieithu fel "ar bapur" sy'n idiom a all olygu "in writing" ond yn llythrennol yn golygu "on paper". Mewn manau eraill yn y Cod, mae'r testun Cymraeg wedi cyfieithu "in writing" yn fwy llythrennol fel "yn ysgrifenedig" yn y mwyafrif o'r paragraffau lle defnyddir yr ymadrodd. Mae'n wir bod y Cod yn cyfeirio at lythyrau penderfyniad fel modd o hysbysu, ond efallai na fydd yn briodol defnyddio ymadroddion sy'n golygu "drwy lythyr" neu "ar bapur" yn y testun Cymraeg gan y gellid ystyried eu bod yn ymddangos fel pe baent yn cyfyngu ar ffyrdd o hysbysu neu gyfathrebu pan na nodir hynny'n benodol yn y paragraffau hynny. Mae hefyd yn golygu nad oes ffordd o wahaniaethu rhwng "by letter" ac "in writing" pan gaiff ei nodi'n benodol yn y testun Saesneg, os defnyddir yr un cyfieithiad yn y testun Cymraeg ar gyfer y ddau ymadrodd hynny.
4. Ym mharagraff 4.13, yn y testun Cymraeg, yn y frawddeg olaf ond un, ni chaiff y gair sy'n cyfateb i "must" yn yr ymadrodd "this **must** be explained to the appellant" ei ddangos mewn ffont coch yn y cyfieithiad. Mae hyn yn bwysig gan fod y ffont lliw coch yn cael ei ddefnyddio i ddangos canllawiau'r Cod y mae'n rhaid eu dilyn fel yr esbonir ym mharagraff 1.3.
5. Ym mharagraff 5.12, yn y testun Cymraeg, yn y pwynt bwled cyntaf, cyfieithwyd y gair "prejudice" fel "niweidio". Ond mae'r gair "prejudice" wedi'i gyfieithu mewn manau eraill drwy gydol y Cod gan ddefnyddio gwahanol ffurfiau ar "anfantais" yn yr un cyd-destun. Mae'n anghyson felly â gweddill y Cod ac yn awgrymu i ddarllen y testun Cymraeg fod i "prejudice" ystyr wahanol yn y paragraff hwn.
6. Ym mharagraff 6.14, yn yr ail bwynt bwled, mae'r testun Cymraeg wedi cyfieithu "**un**reasonably" yn anghywir i olygu "**re**asonably". Felly, mae'r testun Cymraeg a Saesneg yn uniongyrchol anghyson.
7. Ym mharagraff 7.2, nid yw'n ymddangos bod y testun Cymraeg yn cyfleu yr un ystyr mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer apêl. Mae'r testun Saesneg yn nodi bod yn rhaid apelio yn erbyn penderfyniad "**not later than the fifteenth** school day after the day it is given notice". Mae'n ymddangos ei fod yn cynnwys y pymthegfed diwrnod ysgol yn yr amser a ganiateir ar gyfer gwneud yr apêl ond mae'r testun Cymraeg yn nodi bod yn rhaid ei wneud **cyn y bymthegfed** diwrnod ysgol ("**cyn** y pymthegfed diwrnod ysgol"), ac na fyddai'n cynnwys y diwrnod hwnnw yn yr amser a ganiateir. At hynny, mae'r testun Saesneg yn fwy manwl gywir wrth ddatgan bod nifer y diwrnodau ysgol yn cael eu cyfrifo o "'after **the day** it is given notice", ond mae'r testun Cymraeg yn fwy amwys drwy ddweud ei fod yn dechrau ar ôl iddo gael rhybudd ("**ar ôl** iddo gael rhybudd"). Gellid dehongli ystyr hyn i olygu bod nifer y



diwrnodau yn cael eu cyfrifo fel rhai sy'n dechrau o'r un diwrnod y rhoddir y rhybudd iddo neu o'r diwrnod canlynol. Efallai hefyd ei bod yn werth adolygu'r cyfieithiad o baragraff 7.3 i adlewyrchu unrhyw newidiadau a wnaed i baragraff 7.2 yng ngoleuni'r sylwadau hyn.

8. Ym mharagraff A.25, mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg gan fod y gair "should" ar goll o eiriau agoriadol y cyfieithiad. Yn ogystal, yn y testun Saesneg, mae'r gair "should" yn y geiriau agoriadol yn ymddangos mewn lliw glas ychydig yn wahanol o'i gymharu â'i ymddangosiad yn ddiweddarach mewn enghraifft o "should" yn ail bwynt bwled y testun Saesneg.

Gwallau pellach

9. Ar dudalen 2, yn y testun Cymraeg, nid yw'r term sy'n cyfateb i "Action Required" wedi'i alinio'n gywir â'r testun cysylltiedig ar yr ochr dde. Yn ogystal, mae'r holl dermau a restrir ar yr ochr chwith yn y testun Saesneg yn cael eu sillafu â phriflythyren ar ddechrau pob gair heblaw "Additional copies". Yn y testun Cymraeg, dim ond geiriau cyntaf y termau hynny sydd â phriflythyren.
10. Ar dudalen 3, yn y tudalennau Cynnwys, o dan baragraff 4, ac yn ddiweddarach yn y pennawd ei hun, uwchben paragraff 4.13, yn y testun Saesneg, caiff "Representation" ei sillafu â phriflythyren yn y pennawd "Attendance and Representation". Ond mae wedi ei sillafu gyda llythyren gyntaf arferol ym mhrif gorff paragraffau 4.13 i 4.16 o dan y pennawd, ac yn y testun Cymraeg cyfatebol. Yn y penawdau eraill dim ond llythrennau cyntaf y geiriau cyntaf sy'n cael eu sillafu â phriflythyren, felly mae hefyd yn anghyson â'r dull a gymerwyd yn y penawdau eraill.
11. Ar dudalen 4, yn y tudalennau Cynnwys, o dan Atodiad A, mae'r cofnodion ar gyfer "Deddf Cydraddoldeb 2010" a "Deddf Hawliau Dynol 1998" a rhifau eu tudalennau perthnasol ar goll o'r cyfieithiad Cymraeg.
12. Ar dudalen 4, yn y tudalennau Cynnwys, yn y testun Cymraeg, nid yw rhai o'r cofnodion yn Atodiad A ac Atodiad C wedi'u halinio'n gywir yn y rhestr felly maent yn ymddangos ymhellach i'r chwith – e.e., y cofnodion sy'n cyfateb i "Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd)" a "Cyfyngiadau ar gwmpas apelau derbyn yn sgil y cyfyngiadau statudol ar faint dosbarthiadau babanod".
13. Ar dudalen 6 yn y Crynodeb, mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 yn cael eu diffinio fel "Rheoliadau 2023". Fodd bynnag, nid yw'r diffiniad yn cael ei ddefnyddio yn y Crynodeb. Yn ddiweddarach yn y Cyflwyniad ar dudalen 7, ym mharagraff 1.2, caiff teitl yr Offeryn Statudol hwnnw ei ailadrodd yn llawn y tro cyntaf cyn i'r diffiniad gael ei ddefnyddio o fewn y frawddeg honno. O ganlyniad, nid yw'n ymddangos bod unrhyw ddiben diffinio'r Offeryn Statudol yn y Crynodeb a byddai'n gwneud mwy o synnwyr i'r diffiniad ymddangos mewn cromfachau ar ôl y cyfeiriad cyntaf ym mharagraff 1.2, neu ddefnyddio'r ymadrodd "those Regulations" yn hytrach na "the 2023 Regulations" ym mharagraff 1.2.
14. Yn y Cyflwyniad, ym mharagraff 1.1, mae "Deddf 1998" yn ymddangos mewn testun glas gyda hyperddolen yn y testun Cymraeg yn wahanol i'r testun Saesneg. Mae'r gwahaniaethau hyn yn digwydd yn rheolaidd trwy gydol y Cod.
15. Yn y Cyflwyniad, ym mharagraff 1.1, mae bylchau rhwng rhif yr adran, is-adran, paragraff ac is-baragraff yn y cyfeirnod, "section 88 (1) (a) (ii)" ond dylid cyfeirio ato fel "section 88(1)(a)(ii)" heb fylchau.



16. Ym mharagraff 1.4, eglurir arwyddocâd yr ymadroddion "should" a "should not" at ddibenion y canllawiau. Dangosir y termau mewn ffont lliw glas pan gânt eu defnyddio at y diben hwn yn y testun Saesneg. Fodd bynnag, mae'r testun Cymraeg wedi defnyddio ffont lliw glas gwahanol ar gyfer y termau cyfatebol wrth gyfieithu'r paragraff hwn. Ar ben hynny, mae'r cyfieithiad wedyn yn amrywio drwy gydol y Cod rhwng y gwahanol ffontiau lliw glas wrth ddefnyddio'r geiriau sy'n cyfateb i "should"/ "should not" – cymharer er enghraifft baragraffau 1.4 ac 1.7. Yn ogystal, defnyddir y ffontiau lliw glas weithiau ar gyfer cyfeiriadau hyperddolen at ddeddfwriaeth sy'n ychwanegu at y dryswch ynghylch arwyddocâd lliw'r testun yn y cyfieithiad. Mae ambell enghraifft ymarferol o gymysgu'r ffontiau lliw glas yn y testun Cymraeg, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, baragraffau 4.15 a 4.18, a throednodiadau 3 a 7. Mewn manau, mae'r testun Saesneg hefyd yn defnyddio gwahanol ffontiau lliw glas ar gyfer "should" / "should not" a'r cyfeiriadau hyperddolen at ddeddfwriaeth sy'n gwaethygu'r broblem ymhellach.
17. Ym mharagraff 2.1, a thrwy weddill y Cod, mae'r cyfieithiad Cymraeg yn amrywio o ran a yw "arfer" ("practice") i'w drin fel enw gwrywaidd neu fenywaidd. O ganlyniad, mae'r testun Cymraeg yn amrywio wrth gyfieithu "good practice" rhwng "arfer **dda**" ac arfer **da**". Dylai'r cyfieithiad fod yn gyson drwy gydol y Cod – gweler paragraffau 2.1 a 2.11 am "arfer da" a pharagraffau 2.19, 4.6, a 4.11 am "arfer dda". (Fe'i treiglir hefyd fel enw benywaidd ym mharagraff 1.4 gan mai "arfer wael" yw'r cyfieithiad ar gyfer "bad practice").
18. Ar dudalen 10, yn nhroednodyn (3) ar gyfer paragraff 2.1, yn y testun Saesneg, mae'r llinellau cyntaf, ail a thrydydd i gyd yn diweddu yn anghywir gydag atalnod llawn yng nghanol teitlau'r Offerynnau Statudol. Mae'r "and the" yn hytrach na ", the" yn anghywir yn y drydedd linell, ac ym mhedwerydd llinell y testun Saesneg dylai fod gofod rhwng "(Wales)" ac "(Amendment)".
19. Ym mharagraff 2.3, yn y pwyntiau bwled cyntaf a'r ail, caiff y talfyriad "LA" ei dalfyrru'n anghywir fel "All yn hytrach nag fel "All" yn y testun Cymraeg cyfatebol.
20. Ym mharagraff 2.5, dylai'r cyfeiriad ddweud "paragraffau 2.2 **a** 2.3" yn hytrach na "2.2" **i** 2.3" gan eu bod yn baragraffau olynol.
21. Ym mharagraff 2.10, mae gwahaniaeth bach rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg lle mae "relevant court rulings and guidance" wedi'i aralleirio i olygu "relevant court rulings and **latest** guidance".
22. Ym mharagraff 2.13, mae priflythyren wedi'i defnyddio ar gyfer llythyren gyntaf "Regulations" ond gwneir hyn fel arfer mewn deddfwriaeth wrth gyfeirio at set benodol o Reoliadau. Mewn manau eraill yn y Cod, fel ym mharagraffau 3.2 ac C.18, ni ddefnyddiwyd priflythyren ar gyfer sillafu "regulations" wrth gyfeirio at setiau o reoliadau yn gyffredinol yn hytrach na set benodol o Reoliadau.
23. O baragraff 4.9 ymlaen, yn y testun Cymraeg mae gwahaniaeth bach yn y modd y cyfieithwyd yr ymadrodd "the timetabled admissions process" o safbwynt gramadegol. Ym mharagraff 5.21 fe'i cyfieithwyd fel "y broses **dd**erbyn a amserlennwyd" ond ym mharagraffau 4.9, 4.10, 4.12 a 6.1, mae wedi'i gyfieithu fel "y broses **d**erbyn a amserlennwyd" heb y treigladd meddal. Dylai fod dull cyson trwy gydol y Cod.
24. Ym mharagraff 4.11, yn yr ail frawddeg, ceir gwahaniaeth bach rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg, gan fod y gair "apêl" yn yr ymadrodd "**appeal** panel members" ar goll o'r cyfieithiad Cymraeg.



25. Ym mharagraff 4.16, mae'r testun Cymraeg wedi defnyddio priflythyren ar gyfer "aelod" yn yr ymadrodd sy'n cyfateb i "member of the Senedd" lle nad yw'r testun Saesneg yn defnyddio priflythyren.
26. Ar dudalen 20, yn nhroednodyn (9) ar gyfer paragraff 4.13. mae cyfeiriad at "paragraphs A15 to **A23**" ond ymddengys bod hyn yn anghywir a dylai ddatgan "paragraphs A15 i **A22**" ?
27. Ym mharagraff 5.4, ceir cyfeiriad anghywir at "paragraph 5.3" **and 5.4**". Mae hyn yn gofyn am esboniad o'r cyfeiriad cywir a fwriadwyd y dylid ei weld yma. Yn ogystal, dylai'r cyfeiriad ddefnyddio'r enw lluosog "paragraphs" os yw'n cyfeirio at lawer o baragraffau.
28. Ym mharagraff 5.12, yn y pwynt bwled cyntaf, dylai'r cyfeiriad "paragraphs 5.19 **to** 5.20" ddefnyddio cysylltiad "and" yn hytrach na "to" gan eu bod yn baragraffau olynol – "paragraphs 5.19 **and** 5.20".
29. Ym mharagraff 5.18, yn y testun Saesneg, ym mharagraff (a), ymddengys bod yr ail baragraff wedi'i alinio ychydig ymhellach i'r chwith na'r paragraffau diweddarach ym mharagraffau (b) ac (c). Yn y testun Cymraeg mae pob un o'r paragraffau cyfatebol yn (a), (b) a (c) wedi'u halinio ymhellach o lawer i'r chwith yn y testun.
30. Ym mharagraff 5.26, dylai'r cyfeiriad "paragraphs 5.17 **to** 5.18" ddefnyddio cysylltiad "and" yn hytrach na "to" gan eu bod yn baragraffau olynol – "paragraphs 5.17 **and** 5.18".
31. Ym mharagraff 5.36, yn y testun Cymraeg, mae'r gair "Addysg" ar goll o'r cyfieithiad o deitl y Ddeddf – "Deddf **Addysg** 1996". Yn ogystal, yn y cyfeiriad "paragraphs 3.51 **and** 3.52", mae'r cyfieithiad wedi cyfleu'r ystyr fel "**to**" yn hytrach nag "and".
32. Ym mharagraff 5.40, mae'r talfyriad ar gyfer cynllun datblygu unigol wedi'i gynnwys mewn cromfachau "IDU" ar ôl yr ymadrodd y tro cyntaf, ond ni chaiff ei ddefnyddio mewn gwirionedd yn y Cod. Mae'n debyg bod hyn er mwyn cynorthwyo'r darlennydd yn hytrach nag ar gyfer y bwriad o'i ddefnyddio fel diffiniad yn y Cod.
33. Ym mharagraff 5.42, yn y testun Saesneg, ymddengys bod "Disability Discrimination" wedi'i sillafu gyda phriflythrennau ar ddechrau'r geiriau ac un dyfynnod ar y dechrau a dyfynodau dwbl ar y diwedd. Yn y testun Cymraeg, nid oes priflythrennau ar ddechrau'r geiriau cyfatebol ac nid oes dyfynodau o'u cwmpas. Nid yw'n ymddangos fel pe bai'n gyhoeddiad ond yn hytrach yn adran ar wefan EHRC, felly mae'n dilyn y dylid ymgorffori'r geiriau yn y frawddeg heb briflythrennau a dyfynodau yn y testun Saesneg hefyd.
34. Ym mharagraff 6.1, defnyddir yr ymadrodd "**five working days**", lle mynegir nifer y dyddiau gan y gair "five". Mewn manau eraill yn y Cod, defnyddir rhifolion yn hytrach na geiriau yn y ddwy iaith i fynegi nifer y diwrnodau gwaith mewn cyd-destun tebyg (e.e., paragraffau 4.3, 4.4 a 4.23).
35. Ym mharagraff 6.10, mae gwahaniaeth bach rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg, gan fod y gair "panel" yn yr ymadrodd "different **panel** members" ar goll o'r cyfieithiad Cymraeg.
36. Ym mharagraff 7.1, ceir cyfeiriad at "the 1998 Act and paragraph 2(2) of Schedule 2 to the 2005 Regulations" ar ddiwedd y frawddeg sydd i gyd wedi'i danlinellu ac sydd â hyperddolen. Yn y testun Saesneg, dangosir y cyfeiriad cyfan mewn ffont lliw glas a ddefnyddir ar gyfer camau gweithredu y dylid eu cymryd. Yn y cyfeirnod Cymraeg cyfatebol, dim ond y geiriau sy'n cyfateb i "the 1998 Act" sy'n cael eu tanlinellu â hyperddolen, ac fe'u dangosir mewn ffont lliw glas golau gwahanol.
37. Ym mharagraff 7.4, mae'n cyfeirio at blentyn sy'n derbyn gofal gan "a Welsh LA". Dyma'r unig adeg y defnyddir "Welsh LA" yn hytrach na "LA" yn y Cod.
38. Ym mharagraff 7.5, yn y testun Saesneg, nid yw'r llythyren gyntaf yn y cyfeirnod "**section** 95(2)" wedi'i liwio'n las a'i danlinellu, ac mae'r testun Cymraeg cyfatebol wedi'i liwio'n las



gwahanol. Yn ogystal, yn y testun Cymraeg, mae "Deddf 1998" hefyd wedi'i liwio'n las a'i danlinellu er nad yw hyn yn digwydd yn y testun Saesneg. Mae'r problemau hyn yn digwydd trwy gydol y Cod mewn gwahanol fannau o ran y gwahaniaethau fformatio rhwng testunau'r ieithoedd.

39. Ar dudalen 36, yn nhroednodyn 26 ar gyfer paragraff 7.4, dylid sillafu "Regulation" heb briflythyren ar y dechrau gan ei fod yn cyfeirio at reoliad unigol penodol yn hytrach set gyfan o Reoliadau.
40. Ym mhennawd Atodiad A, yn y testun Saesneg, ceir colon ar ôl "Admission appeals" ond ceir cysylltnod yn y testun Cymraeg cyfatebol.
41. Yn Atodiad A, ym mharagraff A.5, ceir cyfeiriad at "section 94" ond nid yw'n ychwanegu "of the 1998 Act" yn wahanol i'r holl gyfeiriadau eraill ym mharagraffau A.3 i A.13.
42. Yn Atodiad A, ym mharagraff A.7, yn yr ail bwynt bwled, mae gwall yn y testun Saesneg sy'n nodi "made **on or** behalf of" pan ymddengys mai'r bwriad yw datgan "made **by or on** behalf of". Mae'r cyfieithiad Cymraeg wedi cymryd yn ganiataol y dylai ddweud "made by or on behalf of" ac wedi ei gyfieithu fel mai dyna'r ystyr.
43. Yn Atodiad A, mewn nifer o fannau, mae'r cyfeiriadau at "the 1998 Act" wedi eu dangos mewn ffont glas a'u tanlinellu yn y testun Cymraeg er nad yw hynny wedi'i wneud yn y testun Saesneg. Er enghraifft, gweler baragraffau A.6, A.8, A.9 ac A.13.
Yn ogystal, yn y testun Saesneg, mae'r cyfeiriad at "the 1998 Act" wedi'i ddangos mewn ffont glas, wedi'i danlinellu a chyda hyperddolen ym mharagraff A.12 er nad yw hyn wedi'i wneud ar gyfer yr holl gyfeiriadau cynharach at y Ddeddf honno.
44. Yn Atodiad A, ym mharagraff A.13, yn y testun Cymraeg, mae'r gair sy'n cyfateb i "year" yn "year group" wedi'i ddangos mewn lliw glas golau, wedi'i danlinellu, a chyda hyperddolen er nad yw'n digwydd yn y testun Saesneg. Mae hyn yn ychwanegol at y gwahaniaethau fformatio eraill sydd eisoes wedi'u crybwyll mewn perthynas â'r paragraff hwn.
45. Ym mharagraff A.15, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg gan fod y geiriau "and victimisation" ar goll o'r cyfieithiad.
46. Ym mharagraffau A.18 ac A.20, mae'r geiriau "victimise" a "victimisation" yn digwydd yn y testun Saesneg, ac maent wedi'u cynnwys yn y testun Cymraeg. Fodd bynnag, maent wedi cael eu cyfieithu'n wahanol fel "trin [person] yn annheg" ac "erledigaeth" yn y paragraffau hynny. Mae'n ymddangos eu bod yn cyfeirio at yr un cysyniad yn y gyfraith ac felly dylent fod yn gyson ynghylch eu terminoleg. Mae gwefan terminoleg Llywodraeth Cymru yn awgrymu "erledigaeth" fel y term a ffefirir gyda statws B am "victimisation".
47. Ym mharagraff A.19, yn y testun Cymraeg, ymddengys fod mân gamgymeriad gramadegol lle mae "having a religious character" wedi ei gyfieithu fel "rhai â chanddynt gymeriad crefyddol". Fodd bynnag, ni ddylai fod to uwchben yr "a" yn y geiriau "rhai â chanddynt".
48. Ym mharagraff A.21, yn y testun Saesneg, nid yw'r frawddeg yn gwneud synnwyr gan ei bod yn datgan "is available **the from the**". Mae'r testun Cymraeg cyfatebol yn gwneud synnwyr ac mae wedi cyfieithu'r ystyr fel "ar gael oddi wrth y".
49. Yn Atodiad B, ym mharagraff B.5, ym mhwynt bwled cyntaf y geiriau olaf, mae'r testun Saesneg yn datgan "have understood the reasons for the decision, **which must** be expressed clearly and concisely (in writing)". Mae'r testun Cymraeg yn dehongli "which must" fel ei fod yn cyfeirio at "y penderfyniad", ac os mai dyna fwriad y testun Saesneg, mae'r cyfieithiad yn gywir. Ond, os yw'r testun Saesneg yn cyfeirio at "the reasons" yna mae'r cyfieithiad wedi camdehongli'r testun Saesneg ac mae'n anghywir.



50. Yn Atodiad C, ym mharagraffau C.9 ac C.15, ceir cyfeiriadau at "paragraphs 5.17 **to** 5.18". Ond dylen nhw ddefnyddio'r cysylltiad "**and**" yn hytrach na "to" gan eu bod yn baragraffau olynol.
51. Yn Atodiad C, ym mharagraffau C.9 ac C.16(a), yn y testun Saesneg, ceir anghysondeb bach lle defnyddir y gair "met" mewn perthynas â'r amodau y cyfeirir atynt ym mharagraffau C.6 ac C.7. Ond, ym mharagraffau C.6 ac C.7, rhaid i'r panel fod yn fodlon bod yr amodau yn "apply" yn hytrach na "met". Mae'r cyfieithiad Cymraeg o'r paragraffau hynny yn gyson ac yn defnyddio'r gair "berthnasol" ym mhob un o'r paragraffau hynny.
52. Yn Atodiad C, ym mharagraff C.17, ym mrawddeg olaf y testun Cymraeg, mae'r geiriau "bydd eu" wedi cael eu huno fel "byddeu" ac nid yw'n gwneud synnwyr.
53. Ar dudalen 49, yn nhroednodyn (33) ar gyfer paragraff C.18, mae cromfachau agoriadol cyn y geiriau "within the meaning of" ond nid oes unrhyw gromfachau cau yn y troednodyn.
54. Ar dudalen 49, yn nhroednodyn (34) ar gyfer paragraff C.18, ceir cromfachau sgwâr o amgylch y geiriau "child arrangements" yn yr ymadrodd "a [child arrangements] order".
55. Yn Atodiad D, ym mharagraff D.3, yn y testun Cymraeg, mae'r cyfieithiad o'r cyhoeddiad "The Equal Treatment Bench Book" yn y lliw ffont glas a ddefnyddir ar gyfer pethau "y dylid" eu gwneud, wedi'i danlinellu a gyda hyperddolen yn wahanol i'r testun Saesneg.
56. Yn Atodiad E, mae'n datgan "Guidance is available on **the EHRC's** website" ond mae'r ddolen i wefan **EASS**. Rwy'n deall bod EASS yn wasanaeth cynghori annibynnol ac nad yw'n cael ei weithredu gan EHRC. Felly, ymddengys bod hyn yn anghywir, a dylai ddweud "the **EASS** website. Yn ogystal, ymddengys y gallai pwynt bwled fod ar goll cyn y wybodaeth am EASS. Yn y testun Cymraeg, mae gwall teipograffig hefyd wrth gyfieithu enw'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb yn y linc i'r wefan, lle mae'r llythyren 'h' ar goll yn "Cyngori" ac y dylid ei sillafu'n "Cynghori". Ar ben hynny, mae testun enw'r Gwasanaeth hwnnw yn ymddangos mewn gwahanol liwiau ffont yn y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Ceir geiriau gwahanol hefyd mewn cromfachau ar ôl enw'r Gwasanaeth yn y linc yn y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Cymraeg mae "(custhelp.com)" ond yn y testun Saesneg mae "(equalityadvisoryservice.com)".
57. Yn Atodiad F, mae Equality Act 2010 (Statutory Duties) (Wales) Regulations 2011 ("the 2011 Regulations") a "Guidance: The Equality Act 2010 (Disabled School Pupils) (Wales) Regulations 2021 [HTML] | GOV.WALES" yn ymddangos mewn testun lliw glas, wedi'i danlinellu a chyda hyperddolen yn wahanol i'r dogfennau cysylltiedig eraill a restrir yn yr Atodiad.
58. Yn Atodiad F, yn y testun Saesneg, nid yw'n ymddangos bod yr achos "R (ota I) v The Independent Appeal Panel of St Edward's College [2001] ELR 542" yn y lle cywir gan y dylai ymddangos cyn yr achos yn dechrau "R (ota K and S)" i fod yn y drefn gywir.
59. Yn yr Eirfa yn y testun Saesneg, yn y cofnod am "Admission Authority", ymddengys bod yr ail frawddeg mewn ffont maint gwahanol i weddill y cofnodion - maint 11 yn hytrach na 12.
60. Yn yr Eirfa, yn y cofnod ar gyfer "Admission round (normal)", yn y testun Saesneg, mae "Foundation" wedi cael ei sillafu â phriflythyren fel llythyren gyntaf yn y geiriau "Foundation School" ond yn cael ei sillafu gyda llythyren gyntaf nad yw'n briflythyren yn y testun Cymraeg. Ymddengys fod y testun Cymraeg yn gywir yn yr achos hwn.
61. Yn yr Eirfa yn y testun Cymraeg, yn y cofnod "Cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod", mae gair ar goll ar ôl "o Ddeddf 1998" gyda'r canlyniad nad yw'r cyfieithiad yn gwneud synnwyr. Dylai'r gair "yn" ymddangos ar ôl "o Ddeddf 1998" i gwblhau ystyr y frawddeg.



Yn ogystal, yn nhestun Saesneg y cofnod hwnnw mae rhan hirach o'r frawddeg yn ymddangos mewn glas, wedi'i thanlinellu a chyda hyperddolen o'i chymharu â'r testun Cymraeg.

62. Yn yr Eirfa, yn y cofnod "Looked After Children", yn y testun Saesneg, mae'r holl eiriau yn yr ymadrodd "Previously Looked after Children" yn cael eu sillafu â phriflythyren ar ddechrau pob gair. Ond dim ond gair cyntaf yr ymadrodd sy'n cael ei sillafu gyda phriflythyren yn y cofnod diweddarach ar gyfer yr ymadrodd hwnnw yn yr Eirfa. Yn y testun Cymraeg mae'n cael ei sillafu'n gyson gyda dim ond y llythyren gyntaf yn briflythyren yn y ddau le.
63. Yn yr Eirfa, yn y cofnod am "Oversubscription" mae gwahaniaeth bach rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n cyfeirio at "the school's published admission number", ond mae i'r testun Cymraeg yr ystyr "niferoedd derbyn a gyhoeddwyd ar wefan yr ysgol". Yn ogystal, yn y testun Cymraeg, gellid dadlau y byddai wedi bod yn ddigonol i roi "Goralw" yn y pennawd heb yr esboniad ychwanegol, gan fod y cofnod ei hun yn rhoi esboniad o ystyr "Goralw" ("Oversubscription"). Mae hefyd yn golygu, os bydd unrhyw un yn chwilio am yr ymadrodd "goralw" yn yr Eirfa ni fydd i'w weld o dan y llythyren "g" oherwydd bod y pennawd yn dechrau gyda llythyren gyntaf yr esboniad "Mwy o...", ac ymddengys nad yw hynny'n ddefnyddiol i'r darlennydd.



Ymateb y Llywodraeth: Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt adrodd a godwyd gan y Pwyllgor. Byddwn yn tynnu'r Cod yn ôl er mwyn ystyried ymhellach yr Atodiad i adroddiad y Pwyllgor a byddwn yn ail-osod fersiwn newydd o'r Cod cyn gynted ag y bo'n ymarferol.



Ein cyf/Our ref: JJ/PO/145/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

22 Mai 2023

Annwyl Gadeiryddion,

Yn unol â'r cytundeb rhyng-sefydliadol, gallaf adrodd wrth yr Aelodau imi fod yng nghyfarfod diweddaraf y Grŵp Rhyngweinidogol Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd ar 27 Ebrill 2023, ac y prif bwnc trafododd oedd buddsoddiad rhwydwaith grid a chydweithio rhwng y Llywodraeth.

Hefyd yn bresennol yn y cyfarfod yr oedd Mairi McAllan MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Sero Net a Pontio Teg, Katrina Godfrey, Ysgrifennydd Parhaol yn Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd, a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon, Graham Stuart AS, Gweinidog Gwladol Diogelwch Ynni a Sero Net, Gareth Davies AS a'r, Ysgrifennydd Trysorlys i'r Trysorlys.

Yn gywir,

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/151/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

23 Mai 2023

Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder

Ysgrifennais atoch ar 15 Mai i'ch hysbysu bod cyfarfod cyntaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder i fod i gael ei gynnal ar 24 Mai. Yn anffodus, mae'r cyfarfod hwn bellach wedi'i ohirio oherwydd nad yw'r Arglwydd Bellamy KC, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, a oedd i fod i gadeirio'r cyfarfod agoriadol, ar gael.

Rydym wrthi'n chwilio am ddyddiad arall i gynnal y cyfarfod a byddaf yn rhoi gwybod ichi cyn gynted ag y cytunir ar ddyddiad newydd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.

Yn gywir,

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 27



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/1347/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.cymru

26 Mai 2023

Annwyl Huw,

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu fy mod wedi rhoi cymeradwyaeth i Lywodraeth y DU wneud Offeryn Statudol sy'n cynnwys elfennau o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru.

Bydd Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio) 2023 (Gorchymyn 2023) yn gwneud diwygiadau i Orchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008 (Gorchymyn 2008), Offeryn Statudol ar gyfer y DU gyfan, yn dilyn ymgynghoriad wedi'i dargedu â'r diwydiant a rhanddeiliad a oedd yn cynnwys y DU gyfan.

Rwy'n cytuno, yn yr achos hwn, i roi cymeradwyaeth i'r Arglwydd Benyon, y Gweinidog dros Fioddiogelwch a Materion Morol a Gwledig wneud diwygiadau i Orchymyn 2008. Sefydlwyd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth drwy Orchymyn 2008, o dan bwerau yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Deddf NERC).

Mae Gorchymyn 2023 yn diwygio Gorchymyn 2008, ac mae'n cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 87, 88 a 97(1) o Ddeddf NERC, a pharagraff 6(a) o Atodlen 8 a pharagraffau 5 ac 8 o Atodlen 10 i'r Ddeddf honno, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae adran 87 o Ddeddf NERC yn rhoi'r pŵer i'r "awdurdod priodol" wneud Gorchymyn sy'n sefydlu corff at ddiben neu ddibenion sydd o fewn adran 88 (dibenion caniatadwy byrddau) ac aseinio swyddogaeth neu swyddogaethau iddo sydd o fewn adran 89 (swyddogaethau caniatadwy byrddau).

Yn ôl diffiniad adran 96(1) o Ddeddf NERC mae "awdurdod priodol" yn cynnwys, mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â Chymru yn unig, Cynlluniad Cenedlaethol Cymru (a drosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan baragraff 30(2) i Atodlen 10 o Ddeddf Llywodraeth Cymru). Mae adran 96(1)(e) yn nodi y gall yr Ysgrifennydd Gwladol (gan weithredu gyda chymeradwyaeth y llywodraethau datganoledig) fod yr "awdurdod priodol" mewn perthynas â materion y cyfeiriwyd atynt yn adran 96(2). Mae'r rhain yn cynnwys arfer pwerau mewn perthynas â swyddogaeth drawsffiniol bwrdd. Y diffiniad o "swyddogaethau trawsffiniol" yw swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gwnaed Gorchymyn 2008 gan yr Ysgrifennydd Gwladol (gyda chymeradwyaeth y llywodraethau datganoledig). At y dibenion presennol, ystyrir bod y diwygiadau a wnaed gan Orchymyn 2023 yn y categori "arfer pwerau eraill mewn perthynas â swyddogaeth drawsffiniol bwrdd".

Mae'r cyfnod yr wyf yn rhoi cymeradwyaeth ar ei gyfer wedi'i gyfyngu i daith Gorchymyn 2023.

O dan adran 96(1) o ddeddf NERC, mae Gweinidogion Cymru yn "awdurdod priodol" ac mae ganddynt y pŵer i ddeddfu mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â Chymru. Fodd bynnag, gan y bydd y diwygiadau'n effeithio ar swyddogaethau trawsffiniol y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, yr Ysgrifennydd Gwladol (gyda chymeradwyaeth y llywodraethau datganoledig) yw'r awdurdod priodol wrth wneud gorchymyn o'r fath.

Mae buddiannau Cymru yn parhau i gael eu diogelu yn ystod taith Gorchymyn 2023, sydd angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru drafod a mireinio Gorchymyn 2023 gyda chymheiriaid yn DEFRA, Llywodraeth yr Alban a DAERA, gan gynnwys datblygu'r ddogfen ymgynghori a'r ymatebion sydd wedi llywio cynnwys y Gorchymyn. Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i gydnabod bod meysydd lle mae Gorchymyn 2023 yn berthnasol i Gymru o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru. Mae swyddogion DEFRA wedi bod yn ymwybodol o'r angen i geisio cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer Gorchymyn 2023, ac maent wedi cydweithredu'n llawn â swyddogion wrth i'r gorchymyn gael ei ddrafftio, ac wedi adlewyrchu sylwadau yn y Gorchymyn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Cofion,

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley Griffiths". The signature is written in a cursive, flowing style.

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Peter Fox OBE AS

Aelod o'r Senedd dros
Fynwy

Member of the Senedd for
Monmouth

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

19 Mai 2023

Annwyl Huw,

Y Bil Bwyd (Cymru) – ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei waith craffu ar y Bil Bwyd (Cymru) ("y Bil") yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 11 Mai 2023.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A.

Er na fu'n bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor, rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ddefnyddiol i chi. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copïau o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Cofion cynnes



Peter Fox, AS Mynwy


Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Bwyd (Cymru)

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru

Senedd Cymru

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru

0300 200 7298 

@Peterfox_ms 

@PeterFox61 

Peter Fox AS 

Eitem 6.1

Atodiad A

Ymateb gan Peter Fox, AS, i Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Bil Bwyd (Cymru)

Argymhelliad 1. Fel rhan o'i adolygiad o'r weithdrefn Bil Aelod, dylai'r Pwyllgor Busnes ymchwilio i ddichonoldeb cyflwyno proses fwy dryloyw ar gyfer ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru, ei swyddogion ac Aelodau o'r Senedd sydd wedi sicrhau caniatâd i fwrw ymlaen i gyflwyno Bil Aelod.

Ymateb: Nodwyd

Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn yn fawr. Rwy'n deall, ac yn derbyn, bod angen i'r broses ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i'r Senedd fod yn gadarn – ac mae hynny'n cynnwys Biliau Aelodau. Fodd bynnag, mae'n anodd i Aelodau unigol o'r Senedd fodloni gofynion Rheol Sefydlog 26.6 yn llawn heb ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru a chael cymorth ganddynt.

Er mai Aelodau'r Senedd sy'n gyfrifol am ddatblygu'r polisi a drafftio Biliau Aelodau, yn y rhan fwyaf o achosion y Llywodraeth fydd yn gorfod rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith ar ôl iddi ddod i rym.

Mewn perthynas â Bil Bwyd (Cymru), roedd angen rhoi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru (er enghraifft) lunio'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol, neu osod y targedau bwyd. Bydd mwy o gyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru, ei swyddogion a'r Aelod yn sicr yn helpu i ddatblygu'r ddeddfwriaeth.

Ar ôl cael y profiad o ennill y balot a sicrhau caniatâd i symud ymlaen, byddwn yn barod i fwydo i mewn i unrhyw adolygiad ehangach o Filiau Aelodau y gallai'r Pwyllgor Busnes ei gynnal.

Argymhelliad 2. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu bod yn rhaid cyhoeddi canllawiau statudol i gyrff cyhoeddus ar sut mae'r dyletswyddau a osodir arnynt gan y Bil yn rhyngweithio â'u dyletswyddau presennol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Ymateb: Derbyn

Rwy'n cydnabod y pryderon a godwyd yn ystod Cyfnod 1 ynghylch sut byddai darpariaethau'r Bil yn rhyngweithio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Er fy mod i o'r farn y byddai'r ddwy Ddeddf yn gweithio'n ddi-dor gyda'i gilydd, gallaf weld mantais cyhoeddi canllawiau statudol i gyrff cyhoeddus yn nodi sut byddai'r dyletswyddau o dan y Bil Bwyd yn rhyngweithio â dyletswyddau presennol o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan hynny, byddaf yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 at y diben hwn.

Argymhelliad 3. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddileu adran 2 o'r Bil, sy'n nodi'r nod bwyd sylfaenol.

Ymateb: Gwrthod

Rwyf o'r farn bod cynnwys y nod bwyd sylfaenol yn darparu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y system fwyd yng Nghymru, yn ogystal â gweithredu fel pwynt angori y bydd polisi a grëwyd drwy'r Bil yn ceisio ei gyflawni. Nid wyf yn cytuno y dylid dileu hyn o'r Bil.

Datblygwyd y Bil yn dilyn ymgysylltu ac ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid ledled Cymru. Cynhwyswyd y nod bwyd sylfaenol trosfwaol hwn yn y Bil drafft mewn ymateb i drafodaethau a gefais gyda rhanddeiliaid a oedd yn teimlo bod angen nodi egwyddor allweddol yn y Bil.

Yn yr ymgynghoriad ar y Bil drafft, roedd 59% o'r rhai a ymatebodd yn cytuno y dylid cynnwys nod bwyd sylfaenol wedi ei ategu gan nodau bwyd eilaidd. Dim ond 8% o'r rhai a ymatebodd oedd yn anghytuno â'r dull hwn. Mynegwyd safbwyntiau am fanylion a ffocws y nod bwyd sylfaenol, ac roedd y mwyafrif o randdeiliaid o blaid ei gynnwys.

Amlygodd trafodaethau yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig unwaith eto fod safbwyntiau gwahanol ymhlith rhanddeiliaid ar fanylion y prif nod bwyd, ond nid oedd galw am ei ddileu.

Argymhelliad 4. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol amlinellu'r dulliau a ddefnyddir i roi gwybodaeth lawn a chynhwysfawr i gyrff cyhoeddus am y nodau bwyd eilaidd, a sut y maent i'w dehongli.

Ymateb: Derbyn

Wrth ddrafftio'r Bil, rhagwelwyd y byddai'r Comisiwn yn mynd ati'n rhagweithiol i ddarparu gwybodaeth i gyrff cyhoeddus wrth iddynt gyflawni ei swyddogaethau o ddydd i ddydd. Nod y fframwaith statudol a nodir yn y Bil yw hyrwyddo cydweithrediad parhaus rhwng y Comisiwn a'r gyrff cyhoeddus perthnasol.

Mae adran 10 o'r Bil yn nodi swyddogaethau Comisiwn Bwyd Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu (a chynorthwyo gyrff cyhoeddus i ddatblygu) polisiau mewn perthynas â materion bwyd; yn ogystal â chynghori, hysbysu a chynorthwyo gyrff cyhoeddus mewn perthynas â materion bwyd. Mae swyddogaethau'r Comisiwn Bwyd hefyd yn cynnwys, yn benodol, swyddogaeth i:

(d) darparu trosolwg ac adolygiad o berfformiad y gwaith o arfer swyddogaethau gyrff cyhoeddus mewn perthynas â'r nodau bwyd a'r targedau bwyd;

Mae adran 18 o'r Bil yn darparu y caiff gyrff cyhoeddus ymgynghori â'r Comisiwn Bwyd, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, neu bersonau priodol eraill, cyn gwneud cynllun bwyd. Byddai hyn yn cynnwys ceisio cyngor ar y nodau bwyd.

Rwyf o'r farn bod y swyddogaethau hyn yn darparu'r mecanweithiau a ddefnyddir i roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyrff cyhoeddus ynghylch sut dylid dehongli'r nodau bwyd, er mwyn iddynt allu datblygu a gwneud eu cynlluniau bwyd lleol.

Argymhelliad 5. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i adran 3(3) o'r Bil fel bod y ddyletswydd i ymgynghori cyn diwygio'r disgrifiadau o'r nodau bwyd eilaidd yn gymwys i gyrff priodol eraill yn ogystal â Chomisiwn Bwyd Cymru.

Ymateb: Derbyn

Fel y nodir yn fy llythyr at y Pwyllgor ar 8 Mawrth 2023, y bwriad drwy'r Bil yw y bydd Comisiwn Bwyd Cymru yn arwain y gwaith ar fwrw ymlaen â'r nodau bwyd, gan chwarae rhan ganolog fel y corff mae Gweinidogion Cymru yn troi ato am gyngor a gwybodaeth. Dyna pam ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn diwygio unrhyw un o'r disgrifiadau o'r nodau bwyd eilaidd.

Nid yw'r gofyniad hwnnw yn atal Gweinidogion Cymru rhag gofyn am farn cyrff a rhanddeiliaid eraill hefyd. Er enghraifft, os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu diwygio'r disgrifiad o nod bwyd eilaidd yr amgylchedd, gallant ofyn am farn Cyfoeth Naturiol Cymru (er enghraifft) yn ogystal â'r Comisiwn Bwyd.

Fodd bynnag, fel yr wyf hefyd wedi ei nodi yn fy llythyr, os oes consensws ymhlith y Pwyllgor fod angen nodi ar wyneb y Bil y gellir neu bod rhaid ymgynghori â phersonau priodol eraill cyn diwygio'r disgrifiadau, yna mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ystyried ei wneud drwy welliannau yng Nghyfnod 2.

Argymhelliad 6. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i adran 4(5) o'r Bil i ddarparu bod yn rhaid i'r rheoliadau cyntaf sy'n gosod un neu fwy o dargedau ar gyfer pob nod bwyd eilaidd gael eu gwneud a dod i rym o fewn dwy flynedd ar ôl i adran 4 ddod i rym.

Ymateb: Derbyn

Fel y nodir yn fy llythyr at y Pwyllgor ar 8 Mawrth 2023, cytunaf fod angen y gwelliant hwn. Fy mwriad yw cyflwyno'r gwelliant hwn yng Nghyfnod 2.

Argymhelliad 7. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i ehangu'r ddyletswydd yn adran 5 o'r Bil i ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru i gynnwys cyrff y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol i ymgynghori â hwy hefyd.

Ymateb: Derbyn

Mae'n ymddangos bod y manylion yn adroddiad y Pwyllgor yn awgrymu bod y pryderon ynghylch Adran 5(1)(b) o'r Bil yn ymwneud â chynnwys y ddyletswydd i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan "personau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol".

Er bod yr argymhelliad hwn yn ceisio ehangu adran 5 o'r Bil i gynnwys cyrff mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori â hwy **hefyd**, mae'n ymddangos bod y naratif yn yr adroddiad, ac yn y sesiwn graffu, yn awgrymu y byddai'r gwelliant rydych chi'n dymuno ei gyflwyno mewn gwirionedd yn dileu'r cyfeiriad at 'bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol' a rhoi cyfeiriad yn ei le at 'bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn briodol'.

Fel y dywedais wrth y Pwyllgor yn ystod y sesiwn graffu, roedd hwn yn faes yr oedd angen i ni fyfyrion ymhellach arno i sicrhau nad oeddem yn eithrio rhywun a allai gyfrannu'n ddefnyddiol neu rywun y gallai'r Llywodraeth fod eisiau ymgynghori ag ef. Gan hynny, byddwn yn barod i gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2, fel y nodais uchod.

Argymhelliad 8. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i adran 17 o'r Bil i ymestyn y cyfnod o amser lle dylai corff cyhoeddus gyhoeddi cynllun bwyd lleol, o ddwy flynedd ar ôl i'r Bil ddod i rym i dair blynedd ar ôl y dyddiad hwnnw.

Ymateb: Derbyn

Rwy'n cytuno â'r pwyllgor y byddai ymestyn y cyfnod pan ddylai cyrff cyhoeddus gyhoeddi eu cynlluniau bwyd yn lleihau'r risg o roi pwysau ychwanegol ar gyrff cyhoeddus os nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu cyhoeddi'r cynllun bwyd cenedlaethol mewn da bryd.

Fel yr amlinellais i'r Pwyllgor, mae y tu hwnt i amgyffred na allai Llywodraeth lunio strategaeth fwyd o fewn dwy flynedd, ond byddai'r gwelliant a awgrymir yn lleihau risg pe bai hynny'n digwydd.

Argymhelliad 9. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ddarparu enghreifftiau o amgylchiadau lle gall Gweinidogion Cymru dynnu corff cyhoeddus oddi ar y rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 22(1) o'r Bil.

Ymateb: Gwrthod

Fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, dim ond rhestr gyfyngedig o gyrff cyhoeddus sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil. Ni allaf feddwl am amgylchiadau lle byddai'r cyrff cyhoeddus hynny a restrir eisoes yn cael eu dileu o Adran 22(1).

Fodd bynnag, mae adran 22(2) o'r Bil hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu cyrff cyhoeddus at y rhestr. Mae'n bosibl felly y gall y rhestr o gyrff cyhoeddus edrych yn wahanol dros amser.

Heb wybod pa gyrff y gellid eu hychwanegu at y rhestr, ni fyddai'n bosibl rhoi enghreifftiau penodol o'r amgylchiadau a allai arwain at eu tynnu oddi ar y rhestr. Mae'r darpariaethau a nodir yn Adran 22(2) o'r Bil (y caniateir i gyrff cyhoeddus gael eu dileu) wedi eu cynnwys yn y Bil er mwyn diogelu'r adran benodol hon o'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Os cyfyd amgylchiadau lle bernir ei bod yn briodol dileu corff cyhoeddus, mae'r ddarpariaeth yno.

Yn gyffredinol, rhaid i bob corff cyhoeddus (gan gynnwys unrhyw gorff ychwanegol a ychwanegwyd) gyhoeddi adroddiadau o bryd i'w gilydd yn asesu effeithiolrwydd ei gynllun bwyd lleol, ac yn benodol,

y cyfraniad mae wedi ei wneud at hyrwyddo'r nodau bwyd a chyflawni'r targedau bwyd. Dros amser, gall yr adolygiadau cyfnodol hynny bwysleisio nad yw gosod dyletswydd ar gorff penodol i gynhyrchu cynlluniau bwyd lleol yn cyd-fynd â gwaith neu swyddogaethau'r corff hwnnw. Gellid gwneud y penderfyniad wedyn i dynnu'r corff hwnnw oddi ar y rhestr.

Argymhelliad 10. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol nodi'r anfanteision o ddarparu yn adran 22(5)(b) o'r Bil bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â pherson sydd i'w dynnu oddi ar y rhestr o gyrff cyhoeddus yn adran 22(1) o'r Bil.

Ymateb: Gwrthod

Mae'r drafftio a ddefnyddir yn adran 22 o'r Bil yn gyson ag enghreifftiau eraill o ddeddfwriaeth Cymru gan gynnwys adran 52(4) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd angen ymgynghori bob amser er mwyn ychwanegu corff at y rhestr o gyrff cyhoeddus, er mwyn rhoi gwybod i'r corff hwnnw am unrhyw gyfrifoldeb ychwanegol y bydd yn ddarostyngedig iddo. Nid yw tynnu corff oddi ar y rhestr yn gosod cyfrifoldebau ychwanegol ar y corff hwnnw, dim ond dileu'r dyletswyddau hynny, felly ni fydd angen ymgynghori â nhw bob amser.

Yn ogystal, mae adran 22(5)(c) yn darparu, wrth wneud Rheoliadau i dynnu corff cyhoeddus oddi ar y rhestr, fod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau maent o'r farn eu bod yn briodol, a fydd, yn ôl pob tebyg, yn cynnwys y corff sy'n cael ei dynnu oddi ar y rhestr.

Gan hynny, nid wyf o'r farn ei bod yn ofynnol gosod dyletswydd ar wyneb y Bil bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny sy'n cael eu tynnu oddi ar y rhestr. Byddwn yn dweud bod amlinellu fy ymresymiad yn fwy priodol nag amlinellu anfanteision rhywbeth nad oes ei angen (yn fy marn i).

Peter Fox OBE AS

Aelod o'r Senedd dros
Fynwy

Member of the Senedd for
Monmouth

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

19 Mai 2023

Annwyl Peredur,

Bil Bwyd (Cymru): ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am graffu ar y Bil Bwyd (Cymru) ("y Bil") yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 12 Mai 2023.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A. Lle mae casgliadau wedi eu gwneud, neu lle mae argymhellion wedi eu hanelu at Lywodraeth Cymru yn hytrach nag ataf i fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, rwyf wedi nodi'r rhain, ond rwyf wedi cynnwys fy meddyliau fy hun mewn ymateb lle bo hynny'n briodol.

Er na fu'n bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor, rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ddefnyddiol i chi. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copïau o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Cofion cynnes,



Peter Fox, AS Mynwy

Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Bwyd (Cymru)

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru

Senedd Cymru

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru

0300 200 7298 

@Peterfox_ms 

@PeterFox61 

Peter Fox AS 

Item 6.2



Ymateb gan Peter Fox, AS i Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Bwyd (Cymru)

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn siomedig â'r diffyg gwybodaeth am nifer o elfennau'n ymwneud â'r Bil ac felly ni all ddod i gasgliad ynghylch a yw'r adnoddau'n ddigonol ac yn rhesymol er mwyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion ac, os bydd y Bil hwn yn mynd rhagddo, byddem yn disgwyl i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gael ei chynnwys mewn Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

Casgliad 2. Rydym yn ailadrodd galwadau blaenorol bod yn rhaid i Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau a buddion i'n galluogi i gynnal gwaith craffu llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil. Mae'r rhain yn cynnwys yr holl filiau a gyflwynwyd yn y Senedd gan Lywodraeth Cymru, Aelodau unigol a Phwyllgorau.

Ymateb: Nodwyd

Rwy'n deall siom y Pwyllgor y gallai fod diffyg gwybodaeth wedi bod ar gostau rhai elfennau o'r Bil. Fodd bynnag, fel Aelod unigol, byddai bron yn amhosibl darparu costau cywir ar gyfer elfennau o Fil sy'n destun strategaeth genedlaethol a rheoliadau dilynol yn y dyfodol, heb ymgysylltu'n sylweddol â swyddogion Llywodraeth Cymru gyda chaniatâd y Gweinidog.

Cafodd y Bil ei ddrafftio'n fwriadol fel Bil fframwaith, gan roi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru ynghylch gweithredu darpariaethau allweddol. Byddai hyn yn cynnwys (er enghraifft) y manylion a gynhwysir mewn Rheoliadau yn y dyfodol. Roedd caniatáu i Lywodraeth Cymru gael rheolaeth dros y cyfnod 'eilaidd' hwn yn hanfodol. Er ei bod yn bosibl ymgysylltu â rhanddeiliaid i amcangyfrif costau gweinyddol y Bil, ni fyddai wedi bod yn bosibl i mi ddarparu costau cywir ar gyfer sawl elfen o'r Bil.

Rwy'n cytuno â barn y Pwyllgor bod yn rhaid i Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau a buddion. Fodd bynnag, wrth gytuno ar hyn, rhaid cofio bod yr amcangyfrif gorau sy'n 'bosibl' i Aelodau unigol ei gynnwys ar gyfer eu Biliau yn debygol o fod yn llai cynhwysfawr na'r amcangyfrifon y gallai Llywodraeth Cymru ei hunan eu cyflwyno. O ran y Bil Bwyd (Cymru), credaf mai'r amcangyfrifon a ddarparwyd gennyf oedd yr amcangyfrifon gorau a oedd yn bosibl o ystyried yr adnoddau a oedd ar gael i mi fel Aelod unigol o'r Senedd.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, yn y dyfodol, yn ymrwymo i gynorthwyo Aelodau unigol a/neu Bwyllgorau sy'n cynnig deddfwriaeth drwy ddarparu gwybodaeth ariannol berthnasol cyn cyflwyno Bil i sicrhau bod costau mewn Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mor gynhwysfawr a manwl â phosibl.

Ymateb: Nodwyd

Fel yr amlinellwyd yn fy ymateb i Gasgliadau 1 a 2, byddai bron yn amhosibl i Aelodau unigol ddarparu costau cywir, neu weithiau unrhyw gostau o gwbl, ar gyfer rhai elfennau o Fil, sy'n amodol ar bwerau i wneud rheoliadau yn y dyfodol yn seiliedig ar strategaeth genedlaethol heb ei llunio eto, heb gael cymorth gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gallaf hefyd weld yr anhawster o safbwynt y Llywodraeth o ran darparu'r costau hynny cyn eu cyflwyno. Byddai gan yr argymhelliad hwn oblygiadau o ran adnoddau i Lywodraeth Cymru wrth ddarparu'r cymorth hwnnw.

Fel y dywedais yn ystod y gwaith craffu, roedd wastad angen rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru a'r Comisiwn Bwyd roi cyfarwyddyd ar elfennau pwysig o'r Bil - byddai llawer ohonynt yn gofyn am wneud Rheoliadau yn ddiweddarach.

O ran y costau a gynhwysir ar gyfer yr elfennau hynny o'r Bil nad ydynt yn ddarostyngedig i Reoliadau yn y dyfodol, credaf fod y rhain wedi eu costio hyd eithaf fy ngallu. Hoffwn ddiolch i'r holl bobl a helpodd o ran costau, mewn sefydliadau ledled Cymru a swyddogion yn yr Alban. Roedd yr ymgysylltiad a gawsom gyda'r sefydliadau hynny yn ddefnyddiol iawn.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn ailasesu ac yn diweddarau'r costau yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar y costau diweddaraf a ddarparwyd gan Lywodraeth yr Alban ar gyfer Deddf Cenedl Bwyd Da (yr Alban) 2022.

Ymateb: Derbyn

Fel y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol yn barod, rhoddais ymrwymiad yn ystod y gwaith craffu ar y Bil Bwyd (Cymru) yng Nghyfnod 1 y byddwn yn ymgysylltu ymhellach â swyddogion yn Llywodraeth yr Alban wrth i'r Bil fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol yn y Senedd. Rwyf hefyd yn cyfeirio'r Pwyllgor at fy llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd, dyddiedig 4 Mai – lle rwyf yn ailadrodd yr ymrwymiad hwn. Rwy'n gwerthfawrogi bod y Pwyllgor wedi cyfeirio at y llythyr hwnnw a anfonwyd ar 4 Mai yn yr adroddiad Cyfnod 1 hwn er iddo gael ei anfon yn hwyr yn amserlen Cyfnod 1.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â maint a chwmpas y Comisiwn Bwyd, gan gynnwys nifer y staff sy'n ofynnol i'w gefnogi, ac yn diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn croesawu'n fawr y cyfle i drafod maint a chwmpas y Comisiwn Bwyd wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy'r broses ddeddfwriaethol. Os bydd angen diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ganlyniad, byddaf yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth wedi ei diweddarau a'i chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Casgliad 3. Ni all y Pwyllgor ddod i farn ynghylch a fyddai'r Bil yn arwain at ddyblygu gyda Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac a oes gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yr arbenigedd neu'r capasiti i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol sy'n ymwneud â'r Bil, o ystyried y diffyg gwybodaeth sydd ar gael ar y mater hwn.

Ymateb: Nodwyd

Mae'n siomedig na allai'r Pwyllgor ddod i farn ar hyn. Credaf yn gryf, fel y gwnaeth nifer o randdeiliaid allweddol yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1, y byddai'r Bil Bwyd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cyd-fynd â'i gilydd, ac yn gweithredu mewn ffordd a fyddai'n ategu ei gilydd. Byddai gan Gomisiynau Cenedlaethau'r Dyfodol rôl i'w chwarae hefyd wrth helpu i siapio'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol yn y dyfodol, er enghraifft.

O ran a oes gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yr arbenigedd neu'r gallu i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol yn ymwneud â'r Bil, roedd yn amlwg iawn i mi o drafodaethau a gefais gyda'r Comisiynydd nad oedd hi o'r farn bod hynny'n bosibl. Mae hyn yn rhywbeth a godais yn benodol yn ystod Cyfnod 1. Nid wyf wedi cael cyfle i drafod y Bil gyda'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol newydd, ond byddwn yn barod i wneud hynny wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy'r broses.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell cael asesiad effaith llawn gyda'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol ac y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd y Senedd yn cael cyfle i gynnal gwaith craffu ar unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â hyn.

Ymateb: Nodwyd

Er nad yw hyn yn ofyniad a nodir ar wyneb y Bil, dylai fod yn ddisgwyliedig y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad effaith o unrhyw 'bolisi' newydd y mae'n ei weithredu. Byddai hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol.



Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gynnal rhagor o waith yn dadansoddi buddion costau'r Bil ac y dylid diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys rhagor o wybodaeth am y buddion hyn, gan gynnwys sut y cânt eu dadansoddi a phryd y rhagwelir y cânt eu cyflawni.

Ymateb: Gwrthod

Fel yr amlinellais yn fy ymateb i gasgliadau 1 a 2, mae'n anodd iawn i Aelodau unigol ddarparu costau cywir ar gyfer pob elfen o'r Bil heb gymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae'r un egwyddor yn berthnasol i'r manteision posibl, gan y byddai llawer yn dibynnu ar weithredu'r Ddeddf. Credaf fod yr wybodaeth a roddais am y manteision cost mor llawn ag y gallai fod bryd hynny.

Mae hyn hefyd yn cysylltu ag Argymhelliad 4, lle mae'r Pwyllgor wedi galw am asesiad effaith llawn o'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol. Bydd y costau a'r buddion llawn yn cael eu hasesu orau ochr yn ochr â'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol a'r asesiad effaith a gaffaelwyd.

Mae hefyd yn debygol y bydd y Bil yn cael ei ddiwygio yng Nghyfnodau 2 a 3, a fyddai'n cael effaith ar y costau a'r manteision posibl. Gan hynny, unwaith eto, y peth gorau fyddai ailasesu'r rhan orau unwaith y bydd y camau diwygio wedi eu cwblhau.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol roi manylion y cyrff cyhoeddus sydd eisoes yn ymgymryd â gwaith i weithredu cynlluniau bwyd lleol, a defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrifo ystod bosibl o gostau sy'n codi o'r Bil. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Ymateb: Derbynn yn rhannol

Mae'r Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil wrth ei gyflwyno yn cynnwys enghreifftiau o gyrff cyhoeddus sydd eisoes yn ymgymryd â gwaith ar gynlluniau bwyd lleol / strategaethau bwyd cymunedol, ac ati. Fodd bynnag, gallaf weld budd ehangu'r wybodaeth hon felly byddaf yn diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gyda manylion pellach ac yn eu cyhoeddi fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ôl Cam 2 y broses.

Fodd bynnag, fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (paragraff 326) nid oedd yn bosibl mesur cost **gweithredu** cynlluniau bwyd lleol heb wybod manylion llawn yr hyn sy'n ofynnol yn y cynlluniau hynny. O ran manylion cynlluniau bwyd lleol:

- (a) rhaid nodi sut byddai'r 'targedau bwyd' yn cael eu cyflawni, ond byddai'r targedau hynny'n cael eu gosod drwy Reoliadau yn ddiweddarach yn y broses, a
- (b) rhaid hefyd rhoi sylw i'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol.

Gan hynny, ni fyddai darparu costau cywir – neu hyd yn oed amrywiaeth gywir o gostau - ar gyfer gweithredu cynlluniau bwyd lleol yn bosibl gan nad yw'r manylion angenrheidiol hynny yn hysbys eto. Gan hynny, gwrthodir y rhan hon o'r argymhellion. Mae hyn yn cysylltu'n ôl â'r materion a godwyd yn Argymhelliad 4 lle mae'r costau'n cysylltu'n ôl â'r Strategaeth.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn diweddarau'r costau o ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol dros gyfnod arfarnu o ddeng mlynedd i ganiatáu ar gyfer cynnwys costau mwy cyflawn yn ymwneud â chynlluniau bwyd lleol.

Ymateb: Gwrthod

Fel y nodwyd yn yr adroddiad, mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd y costau mewn perthynas â'r adolygiad pum mlynedd o gynlluniau bwyd yn disgyn y tu allan i'r amserlen ar gyfer pennu costau'r asesiad effaith hwn.

O ran yr adolygiad pum mlynedd o gynlluniau bwyd lleol, byddai angen y rhain cyn diwedd cyfnod o 5 mlynedd, gan ddechrau ar y diwrnod y cyhoeddir y cynllun cyntaf. Mae'n rhaid i'r cynlluniau eu hunain gael eu gwneud o fewn dwy flynedd i'r Ddeddf ddod i rym. Gan hynny, o fewn cyfnod arfarnu deng mlynedd, dim ond un adolygiad o gynlluniau bwyd lleol fyddai ar gael.

Fel y gŵyr y Pwyllgor, roedd darparu costau dros gyfnod o 5 mlynedd yn gyson â Biliau Aelodau blaenorol. Er fy mod i'n gwybod y byddai'r cyfnod adolygu pum mlynedd y tu allan i hyn, nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol amcangyfrif ar gyfer adolygu cynlluniau bwyd lleol. Nodir ym mharagraff 381 y Memorandwm Esboniadol:

"Rhaid adolygu'r strategaeth bob 5 mlynedd. Byddai hyn y tu allan i'r amserlen 5 mlynedd ar gyfer amcangyfrif costau. Fodd bynnag, ni fyddai'r costau'n sylweddol. Er enghraifft, amcangyfrifodd y Bil Cenedl Bwyd Da y byddai'r diweddariad 5 mlynedd ac ymgynghoriad ar y strategaeth yn costio rhwng £12,549 a £17,549."

Ni fyddai cynnwys yr wybodaeth hon o fewn cyfnod gwerthuso o ddeng mlynedd yn rhoi manylion ychwanegol ar yr amcangyfrif posibl ar gyfer adolygu cynlluniau bwyd lleol.

Peter Fox OBE AS

Aelod o'r Senedd dros
Fynwy

Member of the Senedd for
Monmouth

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru

Eitem 6.3

Senedd Cymru
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru

Paul Davies AS,
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

19 Mai 2023

Annwyl Paul,

Bil Bwyd (Cymru): ymateb i adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Hoffwn ddiolch i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig am ei waith craffu ar y Bil Bwyd (Cymru) ("y Bil") yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 12 Mai 2023. Hoffwn ddiolch hefyd i bawb a roddodd o'u hamser i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, boed hynny'n ysgrifenedig neu wyneb yn wyneb yn ystod sesiynau craffu Cyfnod 1. Rwyf wedi cael fy syfrdanu gan lefel yr ymgysylltu ar y Bil hwn drwy gydol y broses ddeddfwriaethol.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A. Lle mae argymhellion wedi eu hanelu at Lywodraeth Cymru yn hytrach nag ataf i fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, rwyf wedi nodi'r rhain, ond rwyf wedi cynnwys fy meddyliau fy hun mewn ymateb lle bo hynny'n briodol.

Er na fu'n bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor, rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn ddefnyddiol i chi. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'u Hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copïau o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Cofion cynnes



Peter Fox, AS Mynwy
Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Bwyd (Cymru)

0300 200 7298 

@Peterfox_ms 

@PeterFox61 

Peter Fox AS 

Atodiad A

Ymateb gan Peter Fox, AS, i Adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Bil Bwyd (Cymru)

Argymhelliad 1. Er bod y Pwyllgor yn cefnogi amcanion polisi'r Bil yn unfrydol, ni all ddod i farn unedig am yr angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r amcanion hynny. Felly, rydym yn argymhell bod y Senedd yn penderfynu a yw'n derbyn egwyddorion cyffredinol y Bil.

Ymateb: Nodwyd

Rwy'n croesawu cefnogaeth unfrydol y Pwyllgor i amcanion polisi'r Bil Bwyd (Cymru). Mae hyn yn adlewyrchu'n fawr y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a welais yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor.

Mae'n siomedig na allai'r Pwyllgor gyrraedd safbwynt unedig ar yr angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r amcanion polisi. Fel y nodwyd gennych yn eich adroddiad, roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Pwyllgor o blaid y ddeddfwriaeth, gyda chefnogaeth gan undebau amaeth, sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol, grwpiau lles anifeiliaid, academyddion, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

Mae amcanion penodol yn rhan o'r Bil y gellid eu cyflawni heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol - er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth fwyd genedlaethol. Fodd bynnag, rwyf wedi dweud yn glir ers y dechrau mai un o fanteision nodi'r polisi drwy ddeddfwriaeth sylfaenol yw y byddai llywodraethau Cymru yn y dyfodol yn rhwym wrth y ddeddfwriaeth i gyflawni'r polisi mewn ffordd gyson. Byddai'r diffyg deddfwriaeth i gyflawni'r polisi hefyd yn gadael y polisi hwnnw heb unrhyw fecanwaith priodol ar gyfer craffu nac atebolrwydd.

Nodaf yr argymhelliad mai'r Senedd sy'n penderfynu a yw'n cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil. Rwy'n mawr obeithio y bydd y Senedd yn myfyrio ar y gefnogaeth ysgubol i'r Bil gan randdeiliaid a sefydliadau ledled Cymru, ac yn penderfynu cefnogi ei Egwyddorion Cyffredinol.

Argymhelliad 2. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wella ei dull o ymdrin â'r system fwyd drwy sicrhau bod polisiau'n gydgyssylltiedig ac yn cyd-fynd. Gallai hyn naill ai fod drwy'r Bil hwn neu drwy ddulliau anneddfwriaethol. Os bydd y Bil yn methu, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio pa elfennau o'r Bil y gallai eu cyflwyno drwy lwybr anneddfwriaethol.

Ymateb: Nodwyd

Rwy'n croesawu argymhelliad y Pwyllgor. Un o'r prif resymau sy'n sail i'r angen am y Bil hwn yw'r ffordd ddigyswllt mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'i pholisi bwyd. Fel y dywedais yn y Memorandwm Esboniadol, ac fel rydych chi wedi ei ddyfynnu yn yr adroddiad: "*Nid yw polisi presennol Llywodraeth Cymru o ran bwyd yn gydgyssylltiedig, sy'n arwain at anghydlyniaeth polisi a chanlyniadau anfwriadol. Mae angen un dull cyfannol cyffredinol o ymdrin â'r system*

fwyd gyfan yng Nghymru i sicrhau'r ystod eang o fanteision y gall system fwyd gydgysylltiedig, gydnerth a chynaliadwy eu cynnig."

Yn fy ymgynghoriad fy hun ar y Bil drafft, cytunodd 100% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn penodol hwn nad oedd polisi bwyd Llywodraeth Cymru yn un cydlynol.

Argymhelliad 3. Os yw'r Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod 2, dylid diwygio'r nodau bwyd eilaidd i fod yn llai sectoraidd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Yn ystod datblygiad y Bil, roedd lefel uchel o ymgysylltu ar fanylion y nodau bwyd. Cefais awgrymiadau gan lawer o randdeiliaid a sefydliadau ar draws gwahanol sectorau ynghylch yr hyn y dylai'r nodau bwyd eu cynnwys, a'r meysydd y dylent eu cynnwys. Yn anffodus, ni fyddai wedi bod yn bosibl bodloni disgwyliadau a dymuniadau pawb ar wyneb y Bil.

Fe wnes i ymrwymiad i'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1 y byddwn i'n ystyried yr holl dystiolaeth a gafwyd i archwilio lle gallai fod angen diwygio'r nodau bwyd. Fodd bynnag, nid wyf yn hollol glir beth fyddai darparu nodau bwyd 'llai sectoraidd' yn ei olygu yn ymarferol. Fodd bynnag, gan ailadrodd yr ymrwymiad uchod, byddwn yn fodlon gweithio gyda'r Pwyllgor, rhanddeiliaid, a chyda Llywodraeth Cymru i archwilio gwelliannau posibl i'r nodau bwyd.

Prif amcan polisi y Bil yw darparu bwyd fforddiadwy, iach ac sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol i bobl yn awr ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae sefydlu "nodau bwyd" yn y rhan agoriadol o'r Bil yn darparu mecanwaith i helpu i gyflawni'r prif amcan polisi hwnnw. Gan hynny, mae'n hanfodol bod y nodau bwyd yn cael eu halinio fel eu bod yn bwydo i mewn i ddarparu system fwyd integredig.

Argymhelliad 4. Os yw'r Bil yn methu, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi dogfen sy'n nodi ei pholisïau bwyd, ar draws adrannau, a sut y mae'r rhain yn gyson â'i phrif amcanion cyffredinol. Dylai'r ddogfen hon gael ei diweddarau'n rheolaidd.

Ymateb: Nodwyd

Rwy'n nodi argymhelliad y Pwyllgor.

Yn yr un modd â nifer o argymhellion y Pwyllgor, rwy'n mawr obeithio y bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2 y broses ddeddfwriaethol. Mae fy ymatebion drwy gydol yr adroddiad hwn yn adlewyrchu fy nghred mai'r ffordd orau o gyflawni'r amcanion polisi rwyf wedi eu nodi (fel mae'r Pwyllgor wedi cytuno'n unfrydol) yw drwy ddeddfu'r Bil Bwyd (Cymru).

O ran yr argymhelliad penodol hwn, byddwn yn croesawu cyhoeddi dogfen o'r fath gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig bod ei holl bolisiau bwyd yn cael eu mapio'n briodol o ran amcanion - a'u cyhoeddi.

Argymhelliad 5. Os bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2 dylid ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i fecanwaith monitro a gwerthuso cryf gael ei ymgorffori ar gyfer pob targed bwyd pan fydd y targed hwnnw'n cael ei osod.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r Bil eisoes yn cynnwys mecanweithiau ar gyfer monitro a gwerthuso'r targedau bwyd. Yn benodol:

- mae'r gofynion adrodd yn adran 6 yn darparu'r mecanwaith ar gyfer gwaith craffu ac atebolrwydd o ran cynnydd a wneir wrth gyflawni'r targedau a osodwyd; ac
- mae'r gofynion adolygu yn adran 7 yn helpu i sicrhau bod y targedau a osodir yn unol â'r Bil yn parhau'n berthnasol ac yn fesuradwy.

Fodd bynnag, rwy'n cytuno bod angen i'r mecanweithiau monitro a gwerthuso ar gyfer y targedau bwyd fod yn gadarn ac mor gryf ag y gallant fod. Gan hynny, byddwn yn barod i weithio gyda rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru i ystyried a oes angen gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gryfhau'r gofynion hyn.

Argymhelliad 6. Os bydd y Bil yn methu, dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer dadansoddi bylchau o'r targedau presennol sy'n berthnasol i'r system fwyd ac, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, gyflwyno targedau newydd i lenwi unrhyw fylchau.

Ymateb: Nodwyd

Rwy'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ymgymryd â gwaith yn y maes hwn i sicrhau nad oes 'bylchau'. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud hyn ar ei ben ei hun, a dylid alinio'r gwaith hwn ag unrhyw waith mae'r Llywodraeth yn ei wneud i ddatblygu unrhyw strategaethau bwyd newydd ac ati.

Argymhelliad 7. Os bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2, dylid ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar ehangu swyddogaethau Comisiwn Bwyd Cymru i gynnwys cyfrifoldebau ychwanegol. Gallai'r rhain gynnwys monitro polisi bwyd a pherthnasoedd masnachu y DU ac yn rhyngwladol sy'n effeithio ar system fwyd Cymru.

Ymateb: Gwrthod

Dylid nodi swyddogaethau'r Comisiwn Bwyd ar wyneb y Bil. Fel y'i cyflwynwyd, nid yw'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r swyddogaethau hynny drwy Reoliadau. Er mwyn bodloni'r argymhelliad hwn, byddai angen diwygio'r Bil nid yn unig i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori, byddai angen ei ddiwygio i gyflwyno pŵer newydd i wneud rheoliadau i alluogi Llywodraeth Cymru i ddiwygio swyddogaethau'r Comisiwn.

Pe bai swyddogaethau'r Comisiwn Bwyd yn cael eu hehangu, y mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer gwneud hyn fyddai drwy welliant yng Nghyfnod 2. O ystyried cryfder y safbwyntiau a fynegwyd yn ystod Cyfnod 1, byddwn yn fodlon cyflwyno gwelliannau perthnasol yng Nghyfnod 2 at y diben hwn a byddaf yn ymgynghori â rhanddeiliaid yn unol â hynny.

Argymhelliad 8. Os bydd y Bil yn methu, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru naill ai sefydlu bwrdd polisi bwyd mewnol neu weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i greu swydd systemau bwyd bwrpasol i lywio polisi bwyd cydgysylltiedig yng Nghymru, gyda'r dyhead o ddarparu bwyd fforddiadwy ac iach sy'n economaidd, yn amgylcheddol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol gynaliadwy i bobl nawr ac yn y dyfodol. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y bwrdd hwn bob blwyddyn.

Ymateb: Nodwyd

Rwy'n nodi bwriadau'r Pwyllgor yma, ond credaf yn gryf mai'r ffordd orau o fwrw ymlaen â pholisi bwyd cydgysylltiedig yng Nghymru - gyda'r dyhead o ddarparu bwyd fforddiadwy ac iach sy'n gynaliadwy yn economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol i bobl yn awr ac yn y dyfodol - fyddai deddfu'r Bil Bwyd (Cymru) a sefydlu Comisiwn Bwyd annibynnol.

Argymhelliad 9. Ni waeth a yw'r Bil yn mynd rhagddo neu'n methu, mae'r Pwyllgor yn cefnogi datblygu strategaeth fwyd genedlaethol gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod allweddol o gydgysylltu polisi bwyd Llywodraeth Cymru ar draws adrannau.

Ymateb: Nodwyd

Rwy'n croesawu argymhelliad y Pwyllgor yn fawr. Fel y nodwyd yn fy ymateb i Argymhelliad 2, mae angen i bolisi bwyd Llywodraeth Cymru fod yn llawer mwy cydgysylltiedig. Mae datblygu strategaeth fwyd genedlaethol yn rhan annatod o hynny.

Argymhelliad 10. Dylai'r strategaeth fwyd genedlaethol gynnwys unrhyw dargedau bwyd presennol ac unrhyw dargedau bwyd newydd a osodir.

Ymateb: Gwrthod

Yn anffodus nid yw'n glir beth yw bwriad yr argymhelliad hwn, gan nad oes digon o naratif ynghylch y mater hwn yn yr adroddiad.

Os yw'r argymhelliad hwn yn cyfeirio at dargedau newydd a osodwyd o dan Adran 4 y Bil, yna byddai'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth fwyd genedlaethol fel rhan o'r broses a nodir yn y Bil (h.y. rhaid i'r strategaeth nodi'r polisiâu sydd i'w dilyn er mwyn cyrraedd y targedau - a byddai hynny'n berthnasol i bob targed a wneir o dan y Bil).

Fodd bynnag, os yw'r Argymhelliad yn cyfeirio'n fwy cyffredinol at y targedau bwyd mae Llywodraeth Cymru yn eu gosod y tu allan i ddarpariaethau'r Bil, nid yw'n glir a yw'r Pwyllgor yn galw am welliannau i'r Bil i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y strategaeth.

Heb y manylion hynny, ni allaf dderbyn yr argymhelliad.

Argymhelliad 11. Os sefydlir Comisiwn Bwyd Cymru, dylai fod ganddo rôl gref o ran cynghori Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a gweithredu'r strategaeth fwyd genedlaethol.

Ymateb: Derbyn

Er fy mod i'n derbyn yr argymhelliad hwn, mae'r Bil eisoes yn darparu mecanweithiau a fydd yn galluogi'r Comisiwn Bwyd i chwarae rhan gref wrth gynghori Llywodraeth Cymru a chraffu arni o ran datblygu a gweithredu'r strategaeth fwyd genedlaethol. Yn benodol:

- Mae adran 12 o'r Bil eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru geisio cyngor y Comisiwn Bwyd cyn llunio'r strategaeth fwyd genedlaethol.
- Mae adran 10 y Bil (swyddogaethau'r Comisiwn) yn cynnwys y swyddogaeth i graffu ar y strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol.

Byddwn yn barod i weithio gyda'r Pwyllgor yng Nghyfnod 2 i ystyried a oes angen gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gryfhau'r mecanweithiau hyn ymhellach, os ystyrir bod hynny'n briodol.

Argymhelliad 12. Os bydd y Bil yn methu a bod yr argymhelliad i sefydlu bwrdd bwyd mewnol o fewn Llywodraeth Cymru yn cael ei weithredu, dylai'r bwrdd hwn fod â rôl oruchwylio o ran datblygu a gweithredu'r strategaeth.

Ymateb: Nodwyd

Fel gydag argymhelliad 8, nodaf fwriad y Pwyllgor yma, ond credaf yn gryf mai'r ffordd orau o fwrw ymlaen â hyn fyddai deddfu'r Bil Bwyd (Cymru) a sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru.

Yn benodol, o ran y cwestiwn a ddylai'r bwrdd bwyd mewnol feddu ar rôl oruchwylio ar ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Fwyd, nid wyf o'r farn y byddai gan Fwrdd Llywodraeth anstatudol, mewnol, y lefel o annibyniaeth sydd ei hangen i oruchwylio Gweinidogion Cymru yn briodol wrth gyflawni'r polisi hwn.

Argymhelliad 13. Rhaid i'r strategaeth beidio ag 'eistedd ar y silff' a dylid ei gweithredu'n genedlaethol ac yn lleol. Os bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2, dylid ystyried gwelliannau a fyddai'n cefnogi gweithrediad y strategaeth gan gyrff Cyhoeddus.

Ymateb: Gwrthod

Y ffordd y bwriedir i'r Bil weithredu yw cael strategaeth fwyd genedlaethol, a weithredir ar lefel genedlaethol. Byddai'r strategaeth fwyd genedlaethol honno'n nodi'r strategaeth a'r polisiau cyffredinol y bydd **Gweinidogion Cymru** yn eu defnyddio i hyrwyddo'r nodau bwyd a chyflawni'r targedau bwyd.

Mae'r Bil wedyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud cynlluniau bwyd lleol, i'w rhoi ar waith ar lefel leol. Bydd y cynlluniau bwyd lleol hyn yn nodi'r polisiau y bydd y **cyrff**

cyhoeddus yn eu dilyn er mwyn hyrwyddo'r nodau bwyd a chyflawni'r targedau bwyd. Wrth wneud cynllun bwyd lleol, rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw i'r strategaeth fwyd genedlaethol.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y strategaeth genedlaethol a'r cynlluniau lleol yn un pwysig iawn. Ni fwriedir i'r strategaeth genedlaethol gael ei gweithredu ar lefel leol, gan mai dyna fydd y cynlluniau bwyd lleol yn ei wneud.

Argymhelliad 14. Dylid diwygio adran 17 i gynnwys yr angen am gynlluniau bwyd lleol i gefnogi caffael bwyd lleol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Fel rwyf wedi ei nodi mewn perthynas ag Argymhelliad 13, byddai cynlluniau bwyd lleol yn nodi'r polisiau y bydd y cyrff cyhoeddus yn eu dilyn i hyrwyddo'r nodau bwyd a chyflawni'r targedau bwyd.

Mae'r prif nod bwyd yn cynnwys darparu bwyd sy'n gynaliadwy yn gymdeithasol; mae'r nod bwyd eilaidd ar llesiant economaidd yn cynnwys cyfeiriad at greu cyfleoedd economaidd newydd drwy hyrwyddo bwyd a gynhyrchir yn lleol. Wrth hyrwyddo'r nodau bwyd hyn gallai corff cyhoeddus gynnwys caffael bwyd yn lleol yn ei gynlluniau bwyd lleol.

Fodd bynnag, byddwn yn barod i weithio gyda'r Pwyllgor yng Nghyfnod 2 i ddiwygio'r Bil i'w gwneud yn fwy eglur y dylid cynnwys caffael bwyd yn lleol mewn cynlluniau bwyd lleol. Credaf mai'r ffordd fwyaf priodol o wneud hynny fyddai diwygio'r disgrifiad o'r nod bwyd perthnasol yn Adran 3, yn hytrach na diwygio adran 17 ei hun.

Fel y dywedais yn fy ymateb i Argymhelliad 3, gwnes ymrwymiad i'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1 y byddwn yn ystyried yr holl dystiolaeth a ddaeth i law i archwilio lle gallai fod angen diwygio'r nodau bwyd.

Argymhelliad 15. Os bydd y Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2 dylid ystyried gwelliant i adran 18 i gynnwys dyletswydd i ymgynghori â sefydliadau cymunedol sy'n darparu ac yn hyrwyddo prosiectau bwyd lleol ar hyn o bryd.

Ymateb: Gwrthod

Mae adran 18(1) o'r Bil yn darparu, cyn gwneud cynllun bwyd lleol, y **caiff** cyrff cyhoeddus ymgynghori â chyrff neu unigolion penodol. Wrth ddatblygu'r Bil, ystyriwyd y ddarpariaeth hon yn ofalus, a'i drafftio i sicrhau bod unrhyw ymgynghoriad a wnaed gan gyrff cyhoeddus yn ddewis yn hytrach na dyletswydd. Ystyriwyd y gallai gwneud hyn yn ddyletswydd gael effaith negyddol o bosibl ar gyrff cyhoeddus penodol, sydd eisoes yn gwneud gwaith sylweddol ar ddarparu polisiau bwyd lleol.

Mae adran 18(1)(a) a (b) yn cynnwys cyfeiriad penodol at ddau gorff y gellir ymgynghori â hwy (y Comisiwn Bwyd a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru). Mae adran 18(1)(c) o'r Bil

yn nodi darpariaeth gyffredinol sy'n ymwneud ag ymgynghori ag "unrhyw bersonau eraill y mae'r corff cyhoeddus yn ystyried eu bod yn briodol". Byddai hyn yn galluogi ymgynghori â'r sefydliadau cymunedol hynny pe bai'r corff cyhoeddus o'r farn fod hynny'n briodol.

Nid wyf o'r farn y byddai'n briodol darparu rhestr o bwy ddylai'r 'personau eraill' hynny fod o fewn adran 18 o'r Bil. Mae hyn yn agor blwch pandora o bwy ddylai gael ei gynnwys a phwy na ddylid ei gynnwys. Mae'r ddarpariaeth gyffredinol hon ar gyfer ymgynghori hefyd yn gyson â darpariaethau tebyg mewn deddfwriaeth arall, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Argymhelliad 16. Os bydd y Bil yn methu, dylai'r Gweinidog, drwy ganllawiau priodol, annog camau gweithredu a fyddai'n hybu gweithredu cynlluniau bwyd lleol i annog sefydliadau yn y sector cyhoeddus i ddefnyddio bwyd o ffynonellau lleol.

Ymateb: Nodwyd

Yn yr un modd ag argymhellion cynharach, nodaf fwriadau'r Pwyllgor yma, ond credaf yn gryf mai'r ffordd orau o fwrw ymlaen â hyn fyddai deddfu'r Bil Bwyd (Cymru) a fyddai'n gofyn am weithredu cynlluniau bwyd lleol, sy'n adeiladu o strategaeth genedlaethol. Rwy'n ei chael hi'n anodd iawn gweld sut byddai defnyddio canllawiau anstatudol i annog gweithredu yn y maes hwn yn cael yr effaith a ddymunir. Ni fyddai defnyddio canllawiau yn y modd hwn ychwaith yn sicrhau dull cyson sy'n cael ei gynnal dros y blynyddoedd i ddod.

Argymhelliad 17. Os bydd y Bil yn methu, dylai Llywodraeth Cymru annog mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd bwyd yn lleol drwy'r mecanweithiau gorau sydd ar gael o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Gallai hyn fod drwy gynnwys dangosydd/ion llesiant newydd gyda cherrig milltir i gefnogi system fwyd well. Dylai hyn olygu bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried caffael cyhoeddus a chynaliadwyedd bwyd ymhellach yn eu hasesiadau a'u cynlluniau llesiant.

Ymateb: Nodwyd

Mater i Lywodraeth Cymru fydd trafod gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sut gellid gwneud hyn drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a
Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

31 Mai 2023

Bil Bwyd (Cymru)

Annwyl Lesley,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn sgil methiant y Bil Bwyd (Cymru) ar 24 Mai. Yn ystod y ddadl dan sylw, roeddwn yn falch o glywed eich bod yn cefnogi nodau eang y Bil a'ch bod am fanteisio ar y momentwm y mae Peter Fox wedi'i greu ynghylch polisi bwyd drwy'r Bil hwn. Yn unol â'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn ein hadroddiad, roedd y Pwyllgor hefyd yn llwyr gefnogi nodau polisi'r Bil.

Fel y gwyddoch, gwnaethom ddrafftio adroddiad y Pwyllgor ar yr egwyddorion cyffredinol mewn modd a oedd yn caniatáu inni gynnwys argymhellion polisi y gellid eu dilyn pe bai'r Bil yn syrthio. A fyddai modd i chi amlinellu eich cynllun i fanteisio ar y momentwm a grëwyd gan Peter ac ymateb i'r argymhellion a ganlyn yn ein hadroddiad: 2, 4, 6, 8, 9, 10, 12, 16, a 17?

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Peter Fox yn rhinwedd ei rôl fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil; at Huw Irranca-Davies yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; ac at Peredur Owen Griffiths yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r
Cyfansoddiad

31 Mai 2023


Argymhelliad ynghylch gweithdrefn Biliau Aelodau

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr ar 16 Mai a oedd yn tynnu ein sylw at *Argymhelliad 1* yn eich adroddiad ar y Bil Bwyd (Cymru), sy'n ymwneud ag adolygiad arfaethedig y Pwyllgor Busnes o'r weithdrefn Biliau Aelodau.

Trafododd y Pwyllgor Busnes y llythyr yn ein cyfarfod ar 23 Mai a nodi'r argymhelliad. Yn ddiweddar, trafodom raglen ddiwygiedig ar gyfer ein gwaith gweithrefnol, a chytuno arni, yn ein cyfarfod ar 9 Mai, gan gytuno i drafod ymhellach y weithdrefn Biliau Aelodau cyn toriad yr haf. Yn benodol, yn dilyn gohebiaeth ddiweddar a ddaeth i law gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gwnaethom gytuno y byddem yn ystyried cyngor yn ystod tymor yr haf ar ymarferoldeb ystyried y broses ddethol ar gyfer Biliau Aelodau ar wahân, neu a ddylid gwneud hyn fel rhan o adolygiad llawn. Byddwn yn ystyried argymhelliad eich Pwyllgor wrth ystyried ein dull gweithredu yn ogystal ag yn ystod unrhyw adolygiad llawn dilynol.

Cofion gorau,



Y Gwir Anrh. Elin Jones AS

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd, y Pwyllgor Busnes

16 Mai 2023

Annwyl Lywydd,

Adroddiad ar Fil Bwyd (Cymru)

Yr wythnos diwethaf, gwnaethom osod ein hadroddiad ar Fil Bwyd (Cymru); Bil a gyflwynwyd i'r Senedd gan Peter Fox AS ydyw.

Hoffwn dynnu eich sylw at argymhelliad 1 yn ein hadroddiad, sy'n nodi, isod:

Argymhelliad 1. Fel rhan o'i adolygiad o'r weithdrefn Bil Aelod, dylai'r Pwyllgor Busnes ymchwilio i ddichonoldeb cyflwyno proses fwy dryloyw ar gyfer ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru, ei swyddogion ac Aelodau o'r Senedd sydd wedi sicrhau caniatâd i fwrw ymlaen i gyflwyno Bil Aelod.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Datganiad ar hynt gwaith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru
DYDDIAD	23 Mai 2023
GAN	Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Ym mis Tachwedd, rhennais adroddiad cynnydd ar waith y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Dyma'r adroddiad cynnydd diweddaraf a gafwyd gan y Cydgadeiryddion ers i'r Comisiwn lunio ei adroddiad interim ym mis Rhagfyr <https://www.llyw.cymru/comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-cynnydd-ebrill-2023>.

Yn benodol, byddwn yn tynnu eich sylw at lwyfan digidol Y Safle Sgwrsio (defnyddiaylais.cymru) / Engagement Space (useyourvoice.wales). Fel yr wyf wedi ei ddweud eisoes, mae'n bwysig bod gwaith y Comisiwn yn seiliedig ar brofiadau dyddiol a barn cymunedau ledled Cymru. Rwy'n eich cymhellu felly i annog pobl o'r cymunedau rydych chi'n eu cynrychioli i ymwneud â'r Comisiwn ac i rannu eu barn.

Yn gynharach y mis hwn, cafodd y Prif Weinidog, Adam Price AS, a finnau y cyfle i gyfarfod â'r Cydgadeiryddion er mwyn cael diweddariad ar eu gwaith hyd yma. Rydym wedi ein sicrhau bod y Comisiwn ar y trywydd iawn o ran cyhoeddi ei adroddiad terfynol, gan gynnwys argymhellion, erbyn diwedd 2023.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid

24 Mai 2023

Annwyl Gadeirydd,

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) – Gwelliant y Llywodraeth Cyfnod 2

Heddiw rwyf wedi cyflwyno Gwelliant y Llywodraeth ar gyfer Cyfnod 2 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru). Mae'r tabl Diben ac Effaith (copi wedi'i amgáu yn **Atodiad A**) yn rhoi esboniad o'r gwelliant hwn.

Gwneir y gwelliant mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Craffu; yn benodol mewn ymateb i argymhelliad 5 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac argymhelliad 4 y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Ystyriwyd y ddau argymhelliad gyda'i gilydd, gan fod y ddau yn ceisio gosod dyletswydd i ymgynghori mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan adran 10A(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w gyflwyno gan adran 3 o'r Bil) ar wyneb y Bil.

Yn y ddadl Egwyddorion Cyffredinol ar 9 Mai ac yn yr ohebiaeth ddilynol at Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, nodais er nad oeddem yn gallu derbyn yr union eiriad a awgrymwyd yn y ddau argymhelliad, fy mod yn hapus i dderbyn argymhellion y ddau bwyllgor mewn egwyddor. Felly, rwyf wedi cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 sy'n rhoi gofyniad ar wyneb y Bil i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan adran 10A(1). Diben gwelliant arfaethedig y Llywodraeth yw darparu tir canol rhwng y ddau argymhelliad a gynigiwyd gan y ddau Bwyllgor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fe hoffwn i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch unwaith eto i'r tri Phwyllgor am graffu ar y Bil a'r dogfennau cefnogi.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

THE HEALTH SERVICE PROCUREMENT (WALES) BILL – STAGE 2 GOVERNMENT AMENDMENT

This table provides information about the amendment tabled in the name of Eluned Morgan MS on 24 May 2023.

No.	GOVERNMENT AMENDMENT	GWELLIANT Y LLYWODRAETH	PURPOSE AND EFFECT
1.	Section 3, page 2, after line 19, insert— ‘() Before making regulations under subsection (1), the Welsh Ministers must carry out such consultation as they consider appropriate.’.	Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 19, mewnosoder— ‘() Before making regulations under subsection (1), the Welsh Ministers must carry out such consultation as they consider appropriate.’.	The purpose of this amendment is to amend the section of the Bill which inserts a new section (10A) into the National Health Service (Wales) Act 2006, which enables Ministers to make regulations in relation to the procurement of health services in Wales. The effect of this amendment is to add a requirement that the Welsh Ministers carry out such consultation as they consider appropriate before making regulations under s.10A(1). .

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

26 Mai 2023

Annwyl Rebecca,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig

Bu'r Pwyllgor Cyllid yn trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (y memorandwm) yn ei gyfarfod ar 24 Mai, ochr yn ochr â llythyr a gyhoeddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 18 Mai, sy'n codi cwestiynau pellach am ei gynnwys.

Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r meysydd a ganlyn:

Mae'r memorandwm yn datgan, mewn perthynas â chymal 13 a Rhan 4 o'r Atodlen i'r Bil, fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU" a'i bod yn "disgwyl trafodaethau pellach am y pwerau penodol hyn wrth i'r Bil fynd rhagddo".

Rydym yn ailadrodd y galwadau a wnaed gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac yn gofyn am sicrwydd, os bydd y trafodaethau a gynhelir â Llywodraeth y DU yn arwain at welliannau i'r Bil sy'n darparu pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru, y bydd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol yn cael ei osod gerbron y Senedd. Byddai hyn yn rhoi digon o amser i bwyllgorau'r Senedd graffu ar unrhyw newidiadau a wneir i'r Bil,



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddCyllid@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddFinance@senedd.wales

 0300 200 6565

ac yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cyllid ddeall yn llawn a thrafod y goblygiadau ariannol, os o gwbl, a ddaw yn sgil dirprwyo pwerau o'r fath.

Yn ail, mae paragraff 39 o'r memorandwm yn nodi bod cymal 15(3)(d) o'r Bil "yn newid y weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft". Fel y mae'r llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei wneud yn glir, dirprwywyd y pŵer hwn i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Yn debyg i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, rydym yn pryderu bod Bil y DU yn cael ei ddefnyddio i israddio gweithdrefn graffu ar gyfer pŵer dirprwyedig a gymeradwywyd gan y Senedd ei hun gwta ddwy flynedd yn ôl.

O ystyried yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar allu pwyllgorau'r Senedd i graffu ar effaith lawn y rheoliadau hyn, yn ariannol ac fel arall, rydym yn ailadrodd y cais ichi ddarparu esboniad trylwyr ynghylch y rhesymau pam mae'r newidiadau a gyflwynir drwy gymalau 15(3)(d) a 15(4) yn cael eu gwneud.

Er mwyn llywio trafodaethau pellach gan y Pwyllgor ar y memorandwm cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 22 Mehefin, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 9 Mehefin.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



British Red Cross response to the Welsh Government's Legislative Consent Memorandum: Illegal Migration Bill May 2023

Background

The British Red Cross welcomes the opportunity to provide evidence to assist the Senedd's consideration of the Welsh Government's Legislative Consent Memorandum on the UK Government's Illegal Migration Bill. The British Red Cross is particularly concerned about the impact this Bill may have on unaccompanied children and victims of human trafficking where there are existing protections in devolved structures. When considering the matter of legislative competence, the British Red Cross encourages the Senedd to also consider what alternative routes may be available to mitigate risks and uphold protections for those affected by this legislation.

About the British Red Cross

We are part of the world's largest humanitarian network, the International Red Cross and Red Crescent Movement, which has 17 million volunteers across 192 countries. The British Red Cross helps people in crisis, whoever and wherever they are. We are part of a global voluntary network, responding to conflicts, natural disasters, and individual emergencies. We help vulnerable people prepare for, withstand, and recover from emergencies in their own communities.

In Wales, we provide a range of services across emergency response, health and social care and refugee support. We are the largest independent provider of refugee and asylum support in the UK and in 2022 our Refugee Services team in Wales helped 1,533 people. Our work includes supporting resettlement, destitution support, casework, advocacy, and peer led programs as well as international family tracing, family reunion and integration work. This sits alongside work in other nations of the UK where we work within a variety of frameworks and protection mechanisms.

Introduction

The British Red Cross is deeply concerned that the Illegal Migration Bill would punish people seeking safety simply for the way they arrive, when for the very large majority it is not possible to claim asylum in any other way. If successful, the Bill would prevent most people fleeing war

Y Groes Goch Brydeinig

and persecution from claiming asylum in the UK, including when they are from places where nearly everyone is recognised by the Home Office as being a refugee, such as Afghanistan, Syria, and Eritrea.¹

However, it will not stop people coming here. That is because policies of deterrence in destination countries are rarely effective – not least because people on the move often do not know about them. The Home Office's own research² shows that people seeking asylum have limited to no knowledge of migration policies, and usually come because they have no choice where they end up, or because of family or cultural ties and sometimes because of the language. We believe this legislation would be devastating for the men, women, and children searching for safety in the UK.

At the same time, the Bill could prevent survivors of modern slavery from receiving any support simply because of how they arrived in the UK, including people who have been trafficked here. **Crucially, it would create enabling powers to disapply devolved legislation concerning trafficking and modern slavery.** It undermines the UK's world-leading Modern Slavery Act 2015 and is likely to increase the risk of re-exploitation as fewer people will seek support.

Summary

The Bill proposes automatic 28 days of detention for anyone entering the UK without a legitimate visa, with no right for bail or appeal, and opens the possibility of indefinite detention. Each year the British Red Cross helps more than 30,000 refugees and people seeking asylum in the UK and many more displaced people around the world. We see the devastating impact that living in detention has on people's physical and mental health, the emotional strain of being separated from family and the consequences for people living in destitution, including heightened risks of exploitation, and not being able to afford even the most basic of things, like food, shoes or toiletries.³ Besides being unworkable, the Bill risks worsening all of these experiences.

This legislation comes at a time of wider policy change in the migration space, including the full dispersal of people seeking asylum to every local authority in the UK and a move to institutional forms of accommodation for those in the asylum system, including barges and

¹ In the year ending March 2023, the grant rate an initial decision for Afghans was 98%, Syrians 99% and Eritreans 99%. Home Office (2023). Asylum applications, initial decisions and resettlement year ending March 2023. Available at: <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/asylum-and-resettlement-datasets#asylum-applications-decisions-and-resettlement>

² Home Office (2020). Sovereign Borders: International Asylum Comparisons Report. Section 1: Drivers and impact on asylum migration journeys. Available at: <https://freemovement.org.uk/wp-content/uploads/2022/11/Annex-A-Sovereign-Borders-International-Asylum-Comparisons-Report-Section-1-Drivers-and-impact-on-asylum-migration-journeys.pdf>

³ See: British Red Cross (2018) Never truly free: the humanitarian impact of the UK immigration detention system.

British Red Cross: How will we survive? Exploring destitution in the UK asylum system.

British Red Cross: and UNHCR (2022): At risk: exploitation and the UK asylum system

All available here: <https://www.redcross.org.uk/about-us/what-we-do/research-publications>.

Y Groes Goch Brydeinig

military bases. We have previously raised concerns with the use of Penally Barracks in Pembrokeshire and are concerned by the use of further inappropriate accommodation where people's needs aren't met⁴. Protections for those in the system living in House in Multiple Occupancy properties have been removed under UK legislation in England⁵ and may be removed for those in Wales in the future too.

These changes are taking place alongside the UK's response to Ukraine. In Wales, the Welsh Government has supported a safe route to protection for displaced people from Ukraine through its Super Sponsorship Scheme and there are opportunities to expand the protection and sanctuary to other refugees and people seeking asylum.

The British Red Cross wants to see a fairer, more compassionate, and effective asylum system.

To achieve this, we believe that the focus of governments across the UK should be to:

- Uphold the principle of being able to claim asylum by ensuring all claims are considered, no matter someone's mode of arrival.
- Ensure more people fleeing war and persecution can reach the UK safely without risking their lives and falling into the hands of smugglers.
- Prioritise a more efficient decision-making process so people's claims are determined quickly and correctly.
- Ensure refugees and people seeking asylum are better supported once they are in the UK so they engage effectively with the process and for those that stay, can integrate and contribute.

Concerns

While the UK asylum system is reserved, there are opportunities for devolved governments to intervene and provide support to displaced people. This includes through integration and access to public services but crucially by creating protections for victims of trafficking and unaccompanied children.

While we accept that the Welsh Government has limited powers in some areas, there is still scope for it to act. The Welsh Government should maximise its legislative competencies as part of protecting trafficking survivors and unaccompanied children. This could be through the establishment of a trafficking survivor identification and decision agency to complete an

⁴ British Red Cross, Far from a home: why asylum support accommodation needs reform (2021) available here: <https://www.redcross.org.uk/about-us/what-we-do/research-publications>.

⁵ <https://homeofficemedia.blog.gov.uk/2023/04/03/accommodation-sites-factsheet-april-2023/>

Y Groes Goch Brydeinig

anti-trafficking process. The Welsh Government should also safeguard all available legal measures to ensure non-discrimination for unaccompanied children arriving in Wales.

Unaccompanied children

We are concerned about how this Bill would impact unaccompanied asylum-seeking children. The Immigration Act 2014 put a limit on the detention of unaccompanied asylum-seeking children of 24 hours in a short-term holding facility. This Bill removes this provision, giving the Secretary of State the power to detain a person of any age as she considers appropriate. Unaccompanied children are also subject to removal when they turn 18 and the bill opens up the possibility of returning a child before they turn 18, however this is not a duty.

Welsh Government statistics show that there are 110 unaccompanied children in Wales who are looked after by local authorities⁶. This figure may be much larger as many unaccompanied children are often not identified as such due to issues surrounding the effectiveness of age assessments. There has been a significant rise in the number of age disputes as a result of contested age assessments. These disputes have nearly quadrupled between 2019 and 2023, from 798 to 2999 respectively⁷. From the cases that were resolved, 61% of those assessed were found to be children⁸. This is extremely concerning as failure to identify unaccompanied children places them at considerable risk, such as being housed with adults or even placed in immigration detention. The Bill increases the risks of detention due to the aforementioned duties to detain and to remove from the UK.

If a child does remain in the UK, under the provisions in the Bill and the duty placed under Clause 4(2), they will be removed once they reach 18. The impacts of these provisions are significant, placing children beyond the protections afforded in Welsh legislation, notably the Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014⁹ and international law under Article 8 of the European Convention on Human Rights and provisions of the UN Convention on the Rights of the Child. Alongside other areas of devolved competence, this goes against the intentions of the Wellbeing of Future Generations Act 2015 (Wales), where children face detention, the removal of protections and will be barred from becoming citizens and face return.

The Bill gives power to the Secretary of State in Clause 15 to provide or arrange for the provision of accommodation and support for unaccompanied children in England, as

⁶ <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/unaccompaniedasylumseekingchildrenbeinglookedafteratthe31march-by-localauthority>

⁷ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1156821/age-disputes-datasets-mar-2023.xlsx

⁸ As above.

⁹ Section 110 of the Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014 recognises the need of young people leaving care for continued support and contact.

Y Groes Goch Brydeinig

opposed to local authorities. Clause 19 allows the Secretary of State to make regulations enabling Clause 15 to apply in Wales without conferring powers on Welsh Ministers. This would place extremely vulnerable and likely already traumatised children beyond the protection of local authorities.

Children who arrive seeking asylum but without a legitimate visa to enter the UK will have no possibility of having their asylum claim considered, which will automatically be declared 'inadmissible' under Clause 4. This is despite unaccompanied asylum-seeking children having an asylum grant rate of over 80% at initial decision in the year ending March 2023.¹⁰ This will also apply to children who are victims of human trafficking and slavery who have been exploited, including those exploited in the UK.

Consistent with the "child first, migrant second" perspective set out in *Child First, Migrant Second: Ensuring that Every Child Matters*¹¹, organisations such as the Anti-Trafficking Monitoring Group have proposed a focus on child protection, with unaccompanied children to be placed in the children protection system's multi-agency safeguarding hubs for a determination of their trafficking status and the local authority child protection systems for care and protection issues¹². This approach would mean that the immediate needs and safety of a child would be the primary concern, placing concerns around migration and border security as secondary. Others have added to this concept, suggesting that "any reforms should ensure that government departments with responsibility for children lead on the issue."¹³

-We encourage the Welsh Government to consider new practice models which prioritise the care and protection of children such as placing unaccompanied children in the child protection system to support their wider needs, as well as adults too.

Recommendation: The Welsh Government should seek to explore what opportunities may exist to uphold and enhance protections for unaccompanied children arriving in Wales, mitigating negative impacts of this Bill.

Victims of trafficking

¹⁰ Home Office (2023). Asylum applications, initial decisions and resettlement year ending March 2023. Available at: <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/asylum-and-resettlement-datasets#asylum-applications-decisions-and-resettlement>

¹¹ Crawley, H. (2006) *Child First, Migrant Second: Ensuring that Every Child Matters* London, Immigration Law Practitioners' Association Policy Paper

¹² ATMG - Anti-Trafficking Monitoring Group (2014) *Proposal for a Revised National Referral Mechanism (NRM) for Children* London, Anti-Trafficking Monitoring Group Available at: <https://www.ecpat.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=9c439adf-97ef-45f8-ad4fc73752f2676d>

¹³ Sereni, A. and Baker, C. (2018) *Before the Harm is Done: Examining the UK's Response to the Prevention of Human Trafficking* London, Anti-Trafficking Monitoring Group

Y Groes Goch Brydeinig

In 2022, over 16,938 people were referred to the UK's National Referral Mechanism as potential survivors of trafficking. 88% received positive reasonable grounds decisions. 89% of just over 6,000 conclusive grounds decisions made in 2022 were positive, confirming that people were survivors of modern slavery.¹⁴ ¹⁵ Under the provisions of the Bill, when a survivor of modern slavery who arrived in the UK without permission consents to enter the NRM and receives a positive reasonable grounds decision, their claim will not be considered, and they will not be provided with support. Instead, they will be detained and removed. We know through our work supporting survivors of trafficking, people need immediate access to support, including a safe house, washing facilities, rest and advice after leaving exploitation. Detention is a wholly inappropriate setting for someone in need of support as a result of their exploitation.

There may be avenues for protections to be granted under existing Welsh legislation, which are worthy of consideration. We would support a commitment to protection frameworks which exist in devolved legislation, designed to support and protect adults and children living in Wales.

Recommendation: The Welsh Government should pilot devolved decision-making around trafficking status to explore ways to increase protections for migrant victims of modern slavery and trafficking in Wales¹⁶.

Recommendations

We would encourage the Senedd and Welsh Government to:

- Protect victims of trafficking and those in the asylum system, including children, by safeguarding all available legal measures to ensure non-discrimination for children arriving in Wales and by instructing Welsh agencies, such as social work services, to identify and support those in need of protection.
- Use mechanisms such as the pilot of devolved decision-making power¹⁷ around trafficking status to explore ways to increase protections for migrants arriving in Wales.

¹⁴ Once referred to the NRM, individuals receive decisions on two grounds: reasonable grounds, and conclusive grounds. A positive reasonable grounds decision means the decision-maker believes, based on objective factors but falling short of conclusive proof, that a person is a victim of modern slavery (human trafficking or slavery, servitude, or forced or compulsory labour). A positive conclusive grounds decision indicates that there is sufficient information to consider the individual is a victim of modern slavery.

¹⁵ Home Office (2023). Modern Slavery: National Referral Mechanism and Duty to Notify Statistics UK, year ending 2022. Available at: <https://www.gov.uk/government/statistics/irregular-migration-to-the-uk-year-ending-december2022/irregular-migration-to-the-uk-year-ending-december-2022>

¹⁶ [Piloting devolving decision-making for child victims of modern slavery - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

¹⁷ [Piloting devolving decision-making for child victims of modern slavery - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Y Groes Goch Brydeinig

- Commit to models which prioritise the care and protection of children such as placing unaccompanied children in the child protection system to support their wider needs in line with a “child first, migrant second” approach.
- Enhance the monitoring, inspection, regulation, and enforcement of the asylum system within Wales, especially the use of accommodation. These should be underpinned by comprehensive, cross-government strategies that respond to the increasing vulnerabilities and needs of vulnerable groups seeking protections.
- Consider how to offer the same level of protections for all refugees, people seeking asylum and reunited families, learning from the Ukrainian Super Sponsorship Scheme.
- Work alongside the UK Government to increase safe, regular routes to the UK for those in need of asylum.

Further information

We are keen to continue to support the Welsh Government and Senedd on the impacts of the Illegal Migration Bill and wider policies relating to refugees and people seeking asylum. We would be happy to answer any questions or provide further information in a follow up meeting or in writing.

Contact: Naomi White, Policy and Public Affairs Officer (Wales), British Red Cross,



Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Ein cyf/Our ref: MA/RE/0660/23

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru
Swyddfa.breifaf@senedd.cymru

01 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 18 Mai i roi gwybodaeth lawn i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er mwyn iddo ystyried y Memorandwm ar y Bil Ardrethu Annomestig (y Bil), cyn adrodd i'r Senedd.

Cwestiwn 1: Mewn manau amrywiol yn y Memorandwm (gan gynnwys paragraffau 4, 6, 7 a 63) rydych yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio a gofyn am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. A allwch gadarnhau pryd y dechreuodd trafodaethau cydweithredol gyda Llywodraeth y DU a phryd y ceisiwyd yn ffurfiol am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

Dechreuodd trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil ym mis Mawrth 2022 a cheisiwyd darpariaethau ar gyfer Cymru (ac eithrio'r rhai sy'n ymwneud â Digidoleiddio Ardrethi Busnes – gweler yr ymateb i gwestiwn 2a) ar 20 Mehefin 2022. Bryd hynny, roedd trafodaethau'n cael eu cynnal yn gyfrinachol ac nid oedd yn glir a fyddai'r Bil yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno.

Cwestiwn 2: Ym mharagraffau 45 i 47 o'r Memorandwm rydych yn nodi'r pwerau sydd wedi'u dirprwyo mewn perthynas â chymal 13 a Rhan 4 o'r Atodlen. Rydych yn dweud "Nid oedd digon o amser cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru". Rydych yn nodi hefyd bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'i bod yn "disgwyl trafodaethau pellach am y pwerau penodol hyn wrth i'r Bil fynd rhagddo".

a) O ystyried y sylwebaeth yr ydym wedi tynnu sylw ato yng nghwestiwn 1 - ei bod yn ymddangos y bu cydweithio ar y Bil – a fydddech cystal â rhoi eglurder pellach ynghylch sut a pham nad oedd "digon o amser cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru".

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pan ddigwyddodd yr ymgysylltu a ddisgrifiwyd wrth ymateb i Gwestiwn 1, nid oedd darpariaethau'n ymwneud â'r Rhaglen Digidoleiddio Ardrethi Busnes (DBR) yn rhan o gynnwys y Bil sy'n cael ei ddatblygu. Datblygwyd y darpariaethau hyn yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2023, ychydig cyn i'r Bil gael ei gyflwyno. Ar 14 Chwefror, ysgrifennais at y Gweinidogion Bil perthnasol i ofyn am fanylion y darpariaethau a oedd yn cael eu datblygu ac yn gofyn a fyddai modd ystyried eu hestyn i Gymru. Yn dilyn ymateb cadarnhaol ac ystyriaeth o'r cynigion manwl, ceisiais ddarpariaethau yn ffurfiol ar 17 Mawrth a gofynnais am drafodaeth bellach mewn perthynas â'r pwerau dirprwyedig perthnasol. Roeddwn yn cydnabod na fyddai modd, o bosibl, i'r trafodaethau hynny gael eu cwblhau cyn i'r Bil gael ei gyflwyno, a bu rhagor o ohebiaeth rhyngof a Gweinidogion y Bil.

b) Rydym yn nodi bod y Bil yn debygol o gwblhau ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin erbyn diwedd mis Mai, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei ystyried gan Dŷ'r Arglwyddi. Os bydd eich trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn arwain at welliannau yn cael eu gwneud i'r Bil yn ystod ystyriaeth yr Arglwyddi sy'n rhoi pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru, a wnewch chi gadarnhau y byddwch yn gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol gofynnol (sy'n cynnwys manylion llawn yr holl newidiadau perthnasol a wneir i'r Bil) mewn modd amserol i ganiatáu digon o amser i bwyllgorau'r Senedd ymgymryd â'u gwaith craffu.

Gallaf gadarnhau bod ein trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn wedi dod i ben yn ystod taith y Bil drwy Dŷ'r Cyffredin. Nid oes angen unrhyw welliannau i'r Bil o ganlyniad i'r trafodaethau hynny. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cefnogi'r darpariaethau yn y Bil a estynnwyd i Gymru yn eu cyfanrwydd.

Mae'r pwerau a ddirprwywyd i Gomisiynwyr Cyllid a Thollau EF yn gyfyngedig. Nid oes angen iddynt gael eu harfer i alluogi'r fframwaith deddfwriaethol a nodir yn y Bil i weithredu, a dim ond pan ystyrir bod angen newid gweinyddol perthnasol i sicrhau bod y rhaglen DBR yn gweithredu'n effeithiol y byddant yn cael eu defnyddio. Er y byddai unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a wneir o dan y pwerau dirprwyedig yn newid y gofynion a roddir ar dalwyr ardrethi annomestig yng Nghymru, byddai hefyd yn effeithio'n uniongyrchol ar y swyddogaethau a roddir gan y Bil i CThEF.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr CThEF ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud is-ddeddfwriaeth o dan y pwerau dirprwyedig ac i'r graddau y mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru. Bydd y dull hwn yn galluogi i amcanion y rhaglen DBR gael eu cyflawni ac i'r manteision bwriadedig gael eu sicrhau yng Nghymru. Dim ond CThEF sy'n gallu darparu DBR i Gymru, gan fod y rhaglen yn dibynnu ar rannu a chysylltu â gwybodaeth a gedwir ganddo mewn perthynas â threthi heb eu datganoli, yn ogystal ag ardrethi annomestig.

Byddaf yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol i egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ac i ymdrin ag unrhyw welliannau a wneir i'r Bil, mewn modd amserol.

Cwestiwn 3: Ym mharagraff 39 o'r Memorandwm rydych yn nodi bod nifer o ddarpariaethau yng nghymal 15 o'r Bil yn berthnasol i Gymru. Yn benodol, rydych yn dweud bod is-adran 3(d) yn "newid y weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o'r

weithdrefn gadarnhaol ‘gwnaed’ i’r weithdrefn gadarnhaol ddrafft’’. Cafodd y pŵer hwn i wneud rheoliadau, a’r weithdrefn graffu gadarnhaol ‘gwnaed’ sydd ynghlwm wrtho, ei ddirprwyo i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ni roddir esboniad manwl o ran pam yr ydych yn defnyddio Bil y DU i newid (drwy israddio) gweithdrefn graffu ar gyfer pŵer dirprwyedig a gymeradwywyd gan y Senedd ei hun ddwy flynedd yn ôl yn unig. A allech roi esboniad trylwyr ynghylch pam fod y newidiadau a gyflwynwyd gan gymalau 15(3)(d) a 15(4) yn cael eu gwneud.

Mae'r pŵer perthnasol i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru amnewid effaith y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar osod y lluosydd ardrethi annomestig. Mae'r pŵer hwn wedi'i arfer yn flynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, i rewi'r lluosydd, fel rhan o'r pecyn cymorth a ddarparwyd i drethdalwyr yn ystod y pandemig ac yn sgil y pwysau economaidd dilynol. Gan fod y penderfyniadau polisi ac ariannu cysylltiedig yn rhan o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir ym mis Rhagfyr bob blwyddyn, mae'r cyfyngiadau amseru y mae'r gweithdrefnau presennol yn eu gosod ar arfer y pŵer hwn, gan gynnwys y rhyngweithio ag ystyriaeth y Senedd o'r adroddiad cyllid llywodraeth leol, wedi bod yn her ymarferol. Mewn rhai blynyddoedd mae hyn wedi cael effaith negyddol ar yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu'r Senedd ar y ddeddfwriaeth, wrth i'r adroddiadau cyllid llywodraeth leol gael eu hystyried yn gymharol fuan ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.


Mae Cymal 15(3)(d) yn dileu'r dyddiad terfynol presennol (cyn 1 Mawrth neu cyn i'r Senedd gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol, pa un bynnag yw'r cynharaf) ar gyfer cymeradwyo'r rheoliadau gan y Senedd ac yn sicrhau bod drafft o'r rheoliadau yn destun craffu gan y Senedd cyn iddynt gael eu gwneud. Felly, nid wyf yn ystyried bod newid y weithdrefn o'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn israddio'r gwaith craffu. Os rhywbeth, yn ogystal â chael gwared ar gyfyngiadau amseru diangen, bydd yn helpu i sicrhau bod gan y Senedd amser priodol i graffu ar y rheoliadau.

Mae cymal 15(4) yn dileu'r cyfyngiad presennol ar pryd y gellir cyfrifo a chadarnhau'r lluosydd ar gyfer awdurdodau bilio. Bydd hyn yn sicrhau y gellir rhoi eglurder i awdurdodau bilio a thalwyr ardrethi yng Nghymru cyn gynted â phosibl ac na fyddant o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai yn Lloegr oherwydd cyfyngiadau gweithdrefnol nad ydynt yn cryfhau'r craffu (ac a allai gyfyngu arno mewn rhai amgylchiadau).

Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod gan y Senedd gyfle cyson i graffu cyn gwneud rheoliadau, ac yn lleihau'r risg o oedi cyn anfon biliau ardrethi annomestig. Bydd hyn o fudd i awdurdodau lleol ac i dalwyr ardrethi yng Nghymru.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

18 Mai 2023

Annwyl Rebecca

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig

Yn ein cyfarfod yr wythnos hon buom yn trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (y Memorandwm).

Er mwyn llywio ein hystyriaeth o'r Memorandwm yn llawn cyn inni adrodd i'r Senedd, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad i'r llythyr hwn erbyn 1 Mehefin 2023.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

Cwestiwn 1: Mewn manau amrywiol yn y Memorandwm (gan gynnwys paragraffau 4, 6, 7 a 63) rydych yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio a gofyn am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. A allwch gadarnhau pryd y dechreuodd trafodaethau cydweithredol gyda Llywodraeth y DU a phryd y ceisiwyd yn ffurfiol am ddarpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

Cwestiwn 2: Ym mharagraffau 45 i 47 o'r Memorandwm rydych yn nodi'r pwerau sydd wedi'u dirprwyo mewn perthynas â chymal 13 a Rhan 4 o'r Atodlen. Rydych yn dweud "Nid oedd digon o amser cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru". Rydych yn nodi hefyd bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'i bod yn "disgwyl trafodaethau pellach am y pwerau penodol hyn wrth i'r Bil fynd rhagddo".

a) O ystyried y sylwebaeth yr ydym wedi tynnu sylw ato yng nghwestiwn 1 - ei bod yn ymddangos y bu cydweithio ar y Bil – a fydddech cystal â rhoi eglurder pellach ynghylch sut a pham nad oedd "digon o amser cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i ddod i gytundeb pendant ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol o ran dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru".

b) Rydym yn nodi bod y Bil yn debygol o gwblhau ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin erbyn diwedd mis Mai, ac ar ôl hynny bydd yn cael ei ystyried gan Dŷ'r Arglwyddi. Os bydd eich trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn arwain at welliannau yn cael eu gwneud i'r Bil yn ystod ystyriaeth yr Arglwyddi sy'n rhoi pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru, a wnewch chi gadarnhau y byddwch yn gosod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol gofynnol (sy'n cynnwys manylion llawn yr holl newidiadau perthnasol a wneir i'r Bil) mewn modd amserol i ganiatáu digon o amser i bwyllgorau'r Senedd ymgymryd â'u gwaith craffu.

Cwestiwn 3: Ym mharagraff 39 o'r Memorandwm rydych yn nodi bod nifer o ddarpariaethau yng nghymal 15 o'r Bil yn berthnasol i Gymru. Yn benodol, rydych yn dweud bod is-adran 3(d) yn "newid y weithdrefn ar gyfer gwneud rheoliadau o'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft". Cafodd y pŵer hwn i wneud rheoliadau, a'r weithdrefn graffu gadarnhaol 'gwnaed' sydd ynghlwm wrtho, ei ddirprwyo i Weinidogion Cymru drwy *Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021*. Ni roddir esboniad manwl o ran pam yr ydych yn defnyddio Bil y DU i newid (drwy israddio) gweithdrefn graffu ar gyfer pŵer dirprwyedig a gymeradwywyd gan y Senedd ei hun ddwy flynedd yn ôl yn unig. A allech roi esboniad trylwyr ynghylch pam fod y newidiadau a gyflwynwyd gan gymalau 15(3)(d) a 15(4) yn cael eu gwneud.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon